# Y DINESYDD

Chwefror 2018 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 424 £1



Aelodau o Senedd y Wern gydag Elin Jones AC
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru - tud. 4







Huw Jones a Ceri Vaughan Jones o Ysgol Bro Morgannwg a ddewiswyd i gynrychioli eu gwlad - tud. 15

Manon Rees-O'Brien - Prif Weithredwr Newydd Menter Caerdydd - tud. 6

## Cyhoeddi cyflwynwyr newydd Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.

Mae'r gyfres grefyddol **Dechrau Canu Dechrau Canu** wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno â'r rhaglen.

Yn eu plith mae cyflwynydd BBC *News at Ten*, Huw Edwards, a'r dyfarnwr rygbi Nigel Owens sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwrando arni cyn camu ar y cae.

Y cyflwynydd Lisa Gwilym, yr actor a cherddor Ryland Teifi a'r cyflwynydd Nia Roberts, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.

Mae'r gyfres yn cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.

Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gyd-fynd â Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n dod o Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd.

Bydd sgyrsiau gyda'r sylwebydd rygbi Alun Wyn Bevan ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan yn ogystal â chyfweliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgyrsiau difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y cyflwynwyr newydd ar y sgrîn ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."




## Gŵyl Gorawl newydd yn denu 400 o gystadleuwyr yn eu blwyddyn gyntaf

Y Pasg hwn [Mawrth 30 – Ebrill 01, 2018], bydd Caerdydd yn cynnal **Gŵyl Gorawl Ryngwladol Cymru**. Bydd dros 400 o gystadleuwyr, o rai o gorau pennaf y byd yn dod i Brifddinas Cymru i gystadlu yn yr ŵyl newydd, gyffrous hon.

Bydd llinyn cystadleuol yr ŵyl yn cynnwys nifer o gorau rhyngwladol yn cystadlu ar draws pedwar categori: Côr Cymysg; Côr Un Llais (SSAA/TTBB); Categori Agored; Lleisiau Ifanc (dan 25 oed). Bydd y gystadleuaeth yn cyrraedd ei huchafbwynt gyda Chystadleuaeth Côr y Corau, lle bydd panel o feirniaid rhyngwladol yn pennu côr gorau'r ŵyl ac enillwyr Tlws Syr Karl Jenkins.


Côr Heol y March

Wrth sôn am yr ŵyl, dywedodd Syr Karl Jenkins CBE *"Rwy'n ei chyfri hi'n fraint ac yn anrhydedd i allu rhoi fy enw i Dlws Gŵyl Gorawl Ryngwladol Cymru. Mae dros naw deg y cant o fy holl allbwn cyfansoddi wedi cynnwys naill ai cantorion a chanu ac mae seiniau y llais dynol wedi bod yn ysbrydoliaeth i mi am flynyddoedd, bod hynny trwy'r defnydd confensiynol neu fel modd i fynegi naratif neu ddefnyddio'r llais fel offeryn, fel yn fy mhrosiect Adiemus. Yn rhyfedd iawn, anaml yr wyf wedi canu, treuliais ran fwyaf o fy amser yn chwarae obo yn y gerddorfa. Roeddwn yn ateb i gwestiwn mewn cwis yn ddiweddar! Mae hyn hyd yn oed yn well na hynny!"*

Mae ymgeiswyr eleni yn cynrychioli De Affrica a'r Wcráin yn ogystal â Chymru a'i chymydog, Lloegr. Y corau o Gymru sy'n cystadlu yw Ysgol Glanaethwy, Côr Iau Glanaethwy, Côr Heol y March a Chôr y Cwm.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Carys Davies ar carys@gwylgorawlryngwladol.cymru, neu ewch i wefan yr ŵyl www.gwylgorawlryngwladolpl.cymru.

# Y DINESYDD

**Golygyddion:**
**Eirian a Gwilym Dafydd**

***Golygydd Mawrth:***
***Eiry Palfrey***

Cyfraniadau erbyn 25 Chwefror i:
eirypalfrey@yahoo.co.uk
2 Tŷ Sain Baruc, Clôs Highfield,
Heol y Parc, Y Barri, CF62 6NU
07720 009902

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774816209

Tanysgrifiadau i:
Jöel D'Auria
joel.dauria@gmail.com
53 Melrose Avenue, Penylan,
Caerdydd , CF23 9AT
07540057783

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru



## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina


# Meic Povey
# 1950 - 2017



Bu farw Meic Povey ym mis Rhagfyr y llynedd yn dilyn rhai misoedd yn brwydro yn erbyn cancr, ac mae'n anodd iawn credu bod cymeriad mor llawn a lliwgar wedi'n gadael ni. Cychwynnodd ei yrfa broffesiynol gyda Chwmni Theatr Cymru ar ddechrau'r saithdegau, ac ers hynny bu ei gyfraniad i'r byd adloniant yng Nghymru yn amrhisiadwy.

Ganed Meic yn Nant Gwynant a'i fagu yng Ngarndolbenmaen yn un o ddeg o blant ac roedd ei waith fel dramodydd wedi ei wreiddio'n ddwfn yn niwylliant ei fro enedigol. Yn fachgen pymtheg oed aeth i weithio i swyddfa'r cyfreithiwr William George yng Nghricieth a daeth o dan ddylanwad Wil Sam, Elis Gwyn Jones, Stuart Jones a Guto Roberts (Rhoslan) yn Theatr y Gegin, ac yna yn ddwy ar bymtheg oed ymunodd â Chwmni Theatr Cymru ym Mangor. Symudodd i Gaerdydd yn y saithdegau cynnar ac yma yr arhosodd am weddill ei oes gan ymgartrefu ym Mhontcanna. Roedd ei waith fel actor yn cynnwys *The Regiment*, *Heyday in the Blood, Tresarn, Y Garej, Rhandirmwyn*, Yr Uwch-Arolygydd Bevan yn *Yr Heliwr, Wmffra*, yr anhygoel Mordecai yn *Y Dyn Nath Ddwyn Y Nadolig* a D C Jones yn *Minder*, ond fel dramodydd y caiff ei gofio'n bennaf.

Dysgodd ei grefft dan adain Gwenlyn Parry, a chyd- weithiodd gyda Richard Lewis, Alan Clayton, Alun Ffred Jones, Sion Humphries, Bethan Jones a Branwen Cennard. Mae ei waith fel dramodydd ar gyfer y llwyfan yn cynnwys *Y Cadfridog, Perthyn, Wyneb yn Wyneb, Tair, Diwedd y Byd, Yn Debyg Iawn i Ti a Fi, Hogia Ni* ac *Indian Country*, a'i waith teledu'n cynnwys y ffilmiau *Sul y Blodau, Y Weithred*, *Babylon Bypassed*, *Yr Heliwr*, a *Reit Tu Ôl i Ti,* a'r cyfresi *Deryn* a *Glas y Dorlan* fel cyd-awdur, a *Dim ond Heddiw, Talcen Caled* a *Teulu*. Bydd trydedd gyfres *Byw Celwydd* yn cael ei chwblhau cyn hir. Clywyd amryw o'i ddramâu ar Radio 4 ac roedd ei gyfres - *Curious Under The Stars* yn llwyddiant ysgubol. Bydd Theatr Bara Caws yn llwyfannu ei ddrama olaf, *Dwyn i Gof*, ym Mis Hydref. Yr oedd ei ddisgyblaeth yn chwedlonol, ei haelioni tuag at awduron ifanc yn ddi-ail a'i hiwmor yn ddi-guro.

Bydda i'n ei gofio am ei gynhesrwydd a'i agosatrwydd, am ei egni, a'i hwyl ysgubol. Cyhoeddodd hunangofiant - *Nesa Peth i Ddim* - yn olrhain ei hanes, a'i alar dwys pan gollodd ei annwyl wraig Gwenda. Roedd yn dwli ar ei deulu, ei blant Catrin a Llion, a'i wyrion Jaco a Meri. Ac fe gafodd gyfnod o hapusrwydd mawr yn ddiweddar gyda'i bartner Gwenno. Chwith ar ei ôl e.

*Sharon Morgan*

---

*Annwyl Ddarllenwyr,*

Gan fod y Dinesydd yn cynrychioli trigolion Caerdydd a'r Fro, a gan fod Golygydd Mis Mawrth yn byw ym Mro Morgannwg, penderfynwyd canolbwyntio fwyfwy ar newyddion o'r Fro mis nesa. Felly os ydych chi'n gweithio, yn byw neu yn hamddena ym Mro Morgannwg, dewch a'ch newyddion i ni!

Llawer o ddiolch,
*Eiry Palfrey*

(Golygydd Mis Mawrth)

# O'R SENEDD

## Senedd y Wern



Ym mis Ionawr aeth grŵp o ddisgyblion o Ysgol y Wern i'r Senedd ym Mae Caerdydd i lansio 'Senedd y Wern'.

Mae 'Senedd y Wern' yn brosiect arloesol sy'n cyflwyno'r disgyblion i'r cysyniad o ddemocratiaeth a gwneud penderfyniadau trwy ddod â chynrychiolwyr o'r Cyngor Ysgol, Cyngor Eco, Grŵp Digidol a Llysgenhadon yr Iaith at ei gilydd.

Cyfarfu'r disgyblion â Julie Morgan, Aelod Cynulliad Gogledd Caerdydd, a Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol, Elin Jones AC. Holodd y plant yr aelodau am eu blaenoriaethau, a buont yn sôn am yr hyn oedd yn bwysig iddyn nhw.

Yn ôl Mrs Kellaway, Pennaeth Ysgol y Wern, pwrpas Senedd y Wern yw dwyn ynghyd myfyrwyr sy'n gweithio ar faterion fel technoleg ddigidol, yr amgylchedd a'r Gymraeg mewn fforwm a fydd yn eu galluogi i drafod materion tebyg i'r rhai sy'n cael eu trafod yn ein Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Cynulliad yn croesawu ac yn ymweld â channoedd o ysgolion bob blwyddyn. Os ydych yn grŵp sydd â diddordeb ymweld â'r Senedd gallwch ffonio 0300 200 6565 neu ebostio cysylltu@cynulliad.cymru i archebu taith yn rhad ac am ddim.

*Richard Gwyn Jones*

## Profiadau Tywysydd

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai prysur yn y Senedd, gydag ymwelwyr amlwg yn dod o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Gambia, Canada a Rwmania. Braint i mi oedd cael tywys Ei Ardderchowgrwydd Igor Pokas, Llysgennad Croatia, o amgylch y Pierhead fel rhan o'i ymweliad â'r Cynulliad. Roedd ganddo ddiddordeb arbennig yn hanes Bae Caerdydd a'r dociau, a gofynnodd yn benodol i gael mynd ar daith o amgylch y Pierhead yn ystod ei ymweliad. Dywedais wrtho am hanes yr ardal ac arwyddocâd y Pierhead trwy'r degawdau. Mwynhaodd y ffilm fer am y Pierhead yn fawr, sef ffilm saith munud sy'n adrodd hanes Bae Caerdydd o ddechrau'r chwyldro diwydiannol hyd heddiw. Cafodd ei synnu gan gymaint y mae'r Bae wedi newid dros y blynyddoedd, a chan hygyrchedd yr adeilad. Roedd yn ddiddorol iddo ddeall bod y Pierhead ar agor bob dydd o'r wythnos a nad yw'n costio ceiniog i ymweld â'r adeilad. Hyfryd oedd cwrdd ag ef, a dymunaf yn dda iddo yn ystod ei amser yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur iawn yn Ionawr yn cynorthwyo un o'n pwyllgorau gyda'i ymchwiliad. Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn rhoi sylw i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Pwyllgor am wybod faint y mae pobl yn cerdded a beicio yn hytrach na defnyddio eu ceir a/neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae arolwg ar-lein, ac rydym wedi sefydlu'r hyn a elwir yn 'fan cymryd rhan' lle mae pobl sy'n ymweld â'r Senedd yn gallu cymryd rhan a rhannu eu barn â ni. Hefyd, rydym wedi creu cornel i blant fel y gall pobl ifanc gael dweud eu dweud a rhoi eu sylwadau a'u hawgrymiadau i'r pwyllgor eu hystyried. Hyd yn hyn, cafwyd ymateb da ac mae'r ymchwiliad wedi bod yn llwyddiant.

Yn olaf, cefais groesawu dau grŵp anhygoel o ddisgyblion blwyddyn pump o Ysgol The Dell yng Nghas-gwent. Roeddent yn llawn brwdfrydedd, angerdd a bwrlwm o'r eiliad y daethant drwy'r drws. Gwnaeth y plant wrando'n astud a gofyn cwestiynau deallus a chall trwy'r cyfan. Roedd yn wych gweld pobl ifanc, rhai ohonynt mor ifanc â naw oed, mor wybodus a gyda diddordeb ym maes gwleidyddiaeth a'r Cynulliad. Yn ogystal, cawsant gwrdd â Nick Ramsay, eu Haelod Cynulliad lleol. Nid oedd ganddo ond ychydig funudau, ond fe ddefnyddiodd y bobl ifanc yr amser yn ddoeth, gan ofyn cwestiynau gwych iddo. Daeth un o'r cwestiynau gan Nia, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd y diwrnod hwnnw. Gofynnodd: "Beth yw'r peth gorau am fod yn Aelod o'r Cynulliad?", a chafodd yr ateb: "Y peth gorau am fy ngwaith i yw cael cwrdd â phobl hyfryd fel chi a chael helpu pobl yn eu cymunedau". Roedd y bobl ifanc wrth eu bodd â'r ateb, ac roedd yn rhywbeth i gnoi cil yn ei gylch i rai ohonynt. Clywais rai ohonynt yn siarad ymysg ei gilydd tua diwedd y daith, gan ddweud, "Rwy'n credu y byddwn i'n Aelod Cynulliad da; rwyf wrth fy modd yn helpu pobl". Felly, llygad barcud amdani; rwy'n credu y gwelwn arweinwyr y dyfodol yn dod o Ysgol The Dell.

*Gareth Coombes*

---

# BLODWEN 2019 - GALWAD I GANTORION

Yn ystod Mai/Mehefin 2019, bydd NOVA Center for the Performing Arts, mewn cyd-gynhyrchiad gyda Rimrock Opera Foundation yn Billings, Montana, UDA yn perfformio *Blodwen* Joseph Parry (yr opera Gymraeg gyntaf) – yn Gymraeg! - gydag uwchdeitlau Saesneg. Dyma fydd y cynhyrchiad llwyfan cyfan cyntaf o *Blodwen* yn America, gan ddefnyddio fersiwn siambr 2015 Dulais Rhys o'r gerddoriaeth. Am fwy o wybodaeth ewch i: http://dulaisrhysmusicservices.com/blodwen.htm

Mae Rimrock yn gwahodd cantorion proffesiynol o Gymru sydd â diddordeb mewn ymgeisio am Brif Ran i anfon portffolio proffesiynol at y Llywydd: Ms Lucinda Butler, 4964 Nez Perce Lookout, Billings, Montana 59106, UDA neu operapresident@hotmail.com

Disgwylir i'r unawdwyr gynorthwyo cantorion Rimrock gyda chanu yn Gymraeg.

*"Dewch at eich gilydd i wneud yr Eisteddfod eleni yn un i'w chofio."*



## Colofn Ashok

Da iawn bawb am yr holl weithgareddau codi arian dros gyfnod y Nadolig a Santes Dwynwen; mae'n bleser gweld cymaint o ymdrech sy'n mynd mewn i gyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd pantomeim "OMB" gan y teulu Evans yn Ysgol Glantaf; roedd lot o chwerthin a gadawodd pawb yn gwenu yn dilyn y sioe lwyddiannus. Mae pob un ymdrech yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr, a dwi'n hynod o falch i gyhoeddi ein bod wedi codi dros £200,000 i'r Gronfa Lleol.

Mae llwyth o ddigwyddiadau ar y gweill i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targed o £320,000. Bydd cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi yn Ysgol Plasmawr ym mis Mawrth, a llawer mwy o ddigwyddiadau i gymryd rhan ynddo o nawr tan fis Awst. Rydym yn parhau i chwilio am bobol i godi'r cyfanswm terfynol cyn gynted ag y gallwn ni. Felly mae ychydig o bwysau ar rai ardaloedd, yn benodol fel Llanrhymni, Llaneirwg, Llanedeyrn, Pentwyn, Pontprennau; Adamsdown a Splott.

Gyda chwe mis i fynd, mae llawer o waith dal i'w wneud. Bydd yr Eisteddfod yn cyhoeddi manylion am y maes carafanau, Maes B a'r stondinau ym mis Mawrth. Dwi'n gyffrous iawn i weld Y maes lawr yn y Bae eleni; rydym yn lwcus iawn i gael lleoliad mor arbennig sydd ond tafliad carreg o ganol y ddinas.

Mae'r Eisteddfod yn brysur agosáu ac rwy'n gofyn i bob un ohonoch am syniadau, bach neu fawr, ac yn eich annog i roi eich holl ymdrechion i mewn i godi arian er mwyn cyrraedd y targed.

Hysbysebwch yr Eisteddfod i'ch ffrindiau a'ch cymunedau. Os bydd pob un ohonoch yn rhoi cryn tipyn o ymdrech i mewn nawr, gallwn gyrraedd ein targed yn hawdd. Gallwch ffeindio gwybodaeth am ddigwyddiadau yn eich ardal chi i gymryd rhan ynddynt. Dewch at eich gilydd i wneud yr Eisteddfod eleni yn un i'w chofio.

---

## Gweithgareddau Apêl Eisteddfod 2018

### Apêl Pentyrch a Creigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018 – Digwyddiadau y Gwanwyn

Gyda llai na 7 mis i fynd tan y bydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Fae Caerdydd, mae'r pwysau'n codi i sicrhau bod targed cyfraniad y gymuned leol i'r digwyddiad yn cael ei gyrraedd! Dyma felly ddigwyddiadau'r Gwanwyn sydd yn cael eu trefnu gan y Pwyllgor yn ein hardal ni -

**Noson Rasio Ceffylau yng Nglwb Rygbi Pentyrch 8fed o Fawrth**

**Tocynnau** ar gael drwy ffonio 07855 453409 neu cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor. Dewch am dipyn o hwyl a sbri. Bydd y noson yn cael ei harwain gan y darlledwr heb ei ail, John Hardy.

**Cyngerdd Arbennig gyda Charlie Lovell-Jones 5ed o Ebrill**

**Tocynnau** ar gael cyn hir – ewch i gyfrif Facebook neu Twitter y Pwyllgor (gweler isod) am fanylion, neu ffoniwch 07855 453409. Yn frodor o Gaerdydd, mae'r feiolinydd ifanc wedi cael ei ddisgrifio fel un o gerddorion mwyaf addawol y DU. Yn enillydd y Rhuban Glas Offerynnol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, mae Charlie wedi perfformio fel unawdydd gyda Cherddorfa Cenedlaethol Cymru y BBC, Cerddorfa Gyngerdd RTE yn Iwerddon a Cherddorfa Siambr Lloegr, ymysg eraill. Yn 15 oed fe berfformiodd *The Lark Ascending* fel unawdydd yn y Royal Festival Hall, a chyda'r delynores Catrin Finch mewn cyngerdd yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 2016.

**Noson Fawreddog Arall – Mai 2018!**

I'r rheiny fynychodd y Noson Fawreddog gyda Footloose yng Nglwb Rygbi Pentyrch fis Mai 2017, byddwch yn gwybod am lwyddiant y noson, a'r hwyl a gafwyd. Penderfynwyd felly i drefnu ail Noson Fawreddog i gloi gweithgareddau'r Pwyllgor eleni. **DYMA'R NODYN I'CH DYDDIADUR FELLY!** Rhag-rybudd y bydd y noson eleni yn cael ei chynnal yn y babell fawr ar Barc y Dwrlyn, Clwb Rygbi Pentyrch ar yr 11eg o Fai 2018 – manylion i ddod yn fuan.

**Cyfamodi – dull hawdd o gyfrannu**

Diolch yn fawr iawn i'r rheiny ohonoch sydd wedi gwneud cyfraniadau hael at yr ymgyrch eisoes, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Os hoffai unrhywun wneud cyfraniad at yr Apêl yn uniongyrchol, boed hynny drwy daliad unigol neu fisol, yn fawr neu'n fach, os gwelwch yn dda a wnewch chi gysylltu gyda'r Trysorydd, Iwan Griffith ar iwanbethan@btinternet.com / 07900 408 513 / Tŷ Canol, Heol y Parc, Pentyrch, CF15 9NB.

**Trydar a Gweplyfr!**

Gall y rheiny ohonoch sydd ym myd y cyfryngau cymdeithasol gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau, cynnig syniadau ar gyfer digwyddiadau i ddod, neu unrhyw ddull arall o godi arian drwy ein dilyn ar y canlynol. **Ymunwch / Dilynwch!** –

**Twitter - @ApêlPC2018**

**Facebook - Pwyllgor Apêl Pentyrch a Creigiau Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018**

# Croeso i Brif Weithredwr Newydd Menter Caerdydd



Ers y 1af o Chwefror mae gan Fenter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg Brif Weithredwr newydd, sef Manon Rees-O'Brien. Mae'n olynu Siân Lewis sydd, fel y nodwyd yn y rhifyn diwethaf, wedi'i phenodi yn Brif Weithredwr yr Urdd.

Merch o Ddinbych yw Manon ac aeth i Brifysgol Aberystwyth gan ennill gradd mewn Economeg. Dechreuodd ei gyrfa yn y byd ariannol cyn i'r cyfle ddod i weithio gyda Chwaraeon Cymru, gan gyfuno dwy angerdd mawr oedd ganddi, sef 'chwaraeon' a 'Chymru'! Yn ystod ei chyfnod o un mlynedd ar bymtheg gyda Chwaraeon Cymru bu Manon yn gweithio mewn amryw o adrannau gan ddatblygu ystod eang o sgiliau a phrofiad. Yn ddiweddar, hi oedd yn gyfrifol am arwain y berthynas rhyngddynt ag Undeb Rygbi Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru.

Dywed Manon: "Mae'n fraint ac anrhydedd i gael fy mhenodi fel Prif Weithredwr Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio'n agos gyda staff a gwirfoddolwyr angerddol ac ymroddedig y mudiadau er mwyn parhau i gynnig cyfleoedd a chyflogaeth i ehangu a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau."

Wrth gyhoeddi'r newyddion dywedodd Eryl Jones, Cadeirydd Menter Caerdydd: "Mae'n bleser cael croesawu Manon fel ein Prif Weithredwr newydd a rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn i weithio gyda hi i ddatblygu gweithgareddau ar drothwy dathliadau 20 mlynedd y Fenter yn 2018."

Dymuna'r Dinesydd ategu'r croeso hwnnw, gan edrych ymlaen yn fawr at barhau'r berthynas arbennig sydd rhyngddon ni â'r ddwy Fenter.

Isod mae cyfweliad byr gyda Manon.

---

## Dod i nabod Manon...

Mae Manon Rees-O'Brien, ein Prif Weithredwr newydd, wedi ymuno gyda ni ar ddechrau mis Chwefror a rydym ni fel staff yn edrych ymlaen yn fawr i weithio gyda hi a dod i'w hadnabod yn well dros y misoedd nesaf. Ond i ddechrau, dyma rai ffeithiau diddorol amdani! Croeso mawr Manon!

Enw: Manon Rees-O'Brien

Byw: yng Nghaerdydd

Yn wreiddiol: o Ddinbych

Arwydd y Sêr: Libra

Hoff Fwyd: siocled a hefyd ar ochr arall y sbectrwm, unrhywbeth iach!

Hoff fwyty yng Nghaerdydd: gormod o rai da i ddewis dim ond un (a ddim isho pechu!)

Hoff Fand: hoffi pob math o gerddoriaeth – dibynnu ar y rheswm am wrando ond dwi'n hoff iawn o Yws Gwynedd, Yr Eira, Bryn Fôn, Dafydd Iwan (ar adegau), rhaid i mi ddeud Caryl Parry Jones (achos fues i i Ysgol Glan Clwyd!), Candelas – dwi'n hoffi lot fawr o artistaid gwahanol – mae cymaint o dalent yng Nghymru!

Gwyliau Delfrydol: ychydig o haul, diwylliant, rhywbeth egnïol, amser gyda'r teulu a bwyd da!

Hoff air Cymraeg: hiraeth a chwyrligwgan

Hoff gyfres deledu: ddim yn un i wylio llawer o deledu

Hoff dymor: yr Haf (haul!, dyddiau hir)

Hoffi Chwaraeon? Wrth fy modd! Hoffi pob math o chwaraeon – ddim yn rhy dda am wylio, well gen i fod yn rhan ohono!

Hoff beth i wneud yng Nghaerdydd: mynd i un o'r parciau gyda'r teulu a chael rhedeg o gwmpas, cwrdd â ffrindiau a chael paned a chacen rhywle ar y ffordd adre

Hoff le i gael coffi yng Nghaerdydd: eto, nifer ohonynt yn plesio - dibynnu ble yn y ddinas ydw i

Hoff le i gael peint yng Nghaerdydd: mi oeddwn i'n ffan mawr o'r Mochyn Du

3 peth na elli di fyw hebddynt: y teulu, bod yn egnïol a siocled!

---


CYMRODORION CAERDYDD

Sefydlwyd 1885

**Dau artist mawr eu canrif:**
**Kyffin Williams**
**ac R.S. Thomas**

cyflwyniad gan

Y Gwir Barchedig Dr Barry Morgan

Nos Wener 9 Mawrth, 7.30 yh
Yn Tabernacl, yr Ais

*Croeso cynnes i bawb*
*Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig*
Am wybodaeth bellach cysyllter
â'r ysgrifennydd
029 20562880

www.mentercaerdydd.cymru
029 20689 888




**Digon o ddewis i'r plant dros hanner tymor**

Ydych chi wedi gweld ein rhaglen o weithgareddau ar gyfer y plant dros hanner tymor? I'r plant cynradd, gallwch ddewis gofal drwy'r dydd yn Nhreganna neu'r Eglwys Newydd, un o 6 sesiwn chwarae agored Bwrlwm, neu un o'r gweithdai amrywiol, a bydd sesiwn Wac Welis i'r rhai bach. Gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth am y gweithgareddau hanner tymor ar ein gwefan… www.mentercaerdydd.cymru

**DIOLCH NIA**

Hoffem ddiolch i Nia Ramage am ei gwaith gyda ni fel Cyfarwyddwr Yr Hen Lyfrgell wrth iddi symud drws nesaf i ddechrau swydd newydd gyda Virgin Money! Bydd hi'n braf gwybod bod Nia drws nesaf ac yn galw mewn am baned a chinio bach yn Llaeth a Siwgr!

**MYNEDIAD AM DDIM yn yr Hen Lyfrgell! Nos Sadwrn, Mawrth 10**

Braf bydd croesawu'r grŵp poblogaidd Mynediad am Ddim i'r Hen Lyfrgell ar Nos Sadwrn, Mawrth y 10fed. Bydd y gig, sydd noson cyn gêm Cymru a'r Eidal, yn codi arian tuag at yr Eisteddfod a gobeithio bydd y lle dan ei sang! Bydd y Gerddorfa Ukulele yn perfformio hefyd, felly archebwch eich tocynnau cyn y bydd hi'n rhy hwyr!

Mae'r tocynnau'n £12 (neu £15 wrth y drws os bydd rhai ar ôl !) ac ar gael yn siop Bodlon yn yr Hen Lyfrgell neu drwy ebostio angharad@mentercaerdydd.cymru

## Cylch Cinio Cymry Caerdydd

Cafwyd dau siaradwr tra gwahanol, ond y ddau'n werth chweil, yng nghiniawau diweddaraf y Cylch. Ym mis Rhagfyr dadlennodd Dr. Haydn Edwards, cadeirydd Bwrdd y Coleg Cymraeg, hanes difyr Griffith Davies o'r Groeslon, tad y proffesiwn actiwariaeth. Newidiodd yntau yn 21 oed o fod yn chwarelwr gwantan a thrwsgwl yn chwarel y Cilgwyn i ddilyn gyrfa fathemategol. Teithiodd ar fordaith enbyd i Lundain ac yno datblygodd ei allu mathemategol i ddod yn arbenigwr actiwariaeth cwmni y *Guardian Assurance*. Roedd hefyd yn ddiacon yng nghapel Cymraeg Jewin, ac yn Gymrawd yr F.R.S. Ef hefyd arweiniodd y tyddynwyr yn eu brwydr llwyddiannus i atal yr Arglwydd Newborough rhag cau tiroedd comin yn ardal Llandwrog.

Yna ym mis Ionawr, brodor o Gaerdydd, sef yr arweinydd a'r cerddor adnabyddus Alun Guy, a'n difyrrodd gyda'i atgofion o dyfu i fyny yn y ddinas, a sut beth oedd hi i fod yn Gymro Cymraeg yng Nghaerdydd o'r 40au ymlaen. Cyfaddefodd nad oedd erioed yn fwriad gwreiddiol ganddo i fynd yn gerddor, a soniodd am ddylanwad Elvet Thomas yn Ysgol Uwchradd Cathays, Arwel Hughes ac Eglwys Minny Street arno. Dywedodd fod ei dad hefyd yn llywydd y Cylch Cinio yn ei ddyddiau cynnar.

Erbyn cyhoeddi'r Dinesydd, bydd y cinio nesaf wedi digwydd ar Ddydd Llun, Chwefror 5, gyda'r Athro Deri Tomos, un arall o feibion Caerdydd yn ein diddanu gyda'i huotledd. Mae aelodaeth y Cylch yn llewyrchus, gyda rhwng 30 a 40 yn mynychu pob cinio. Ond os oes unrhyw rai eraill am ddod i ginio dydd Llun, Mawrth 5, pan fydd Catrin Dafydd, y nofelydd, sgriptwraig a bardd, yn siarad, gellir cysylltu gyda'r ysgrifennydd, Peter Gillard, 078 5900 7406, neu pgillard@yahoo.com



*Glyn Hughes (Trysorydd) Peter Gillard (Ysgrifennydd) Alun Guy (Siaradwr gwâdd) Alwyn Evans (Llywydd)*

## Tîm Dan 11 yr Urdd

Mae'r Urdd yn chwilio am chwaraewyr i dîm Urdd Goch, dan 11 (blwyddyn 6); chwilio am chwaraewyr newydd ar gyfer y tîm 7 bob ochr eleni, fydd yn codi i 11 bob ochr y flwyddyn nesaf. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â garetheast@urdd.org neu ar 07557 322891.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS EBENESER

**Medrau**

Braint oedd cael cyflwyno a gweddïo dros Dyfan Graves ar fore Sul, 14eg o Ionawr, sydd ar gyfnod Medrau gydag Ebeneser o dan nawdd Undeb Yr Annibynwyr Cymraeg a CWM. Dymunwn bob bendith i Dyfan yn ystod y 6 mis nesaf ac edrychwn ymlaen am ei gwmni. Mae erthygl gan Dyfan Cynwyl Graves yn y rhifyn cyfredol o'r Cristion.

**Y Gymdeithas**



*Luned Aaron a Siwan Mair Jones*

Ar nos Fawrth 16eg o Ionawr dyna braf oedd cael noson hynod o ddiddorol yng nghwmni Siwan Mair Jones a Luned Aaron. Bu'r ddwy yn sôn am gelfyddyd a sut mae'n chwarae rhan yn eu bywydau. Graddiodd Siwan mewn Tecstiliau yng Nghaerdydd y llynedd. Ar hyn o bryd mae'n treulio blwyddyn gyda UCCF - mudiad Cristnogol sy'n gweithio gyda myfyrwyr yng ngholegau Caerdydd. Lluniau gyda phaent acrylig gyflwynodd Luned Aaron a ymddangosodd yn ei chyfrol *Ennyd*, y llynedd. Ei thad, John Emyr yw'r bardd. Cyflwyniad sensitif o gerddi a darluniau yw'r gyfrol. Soniodd hefyd am lyfr a gyhoeddwyd yn 2016 ble gwelir yr wyddor Gymraeg a llun ar gyfer pob llythyren. *ABC Byd Natur* yw'r enw arno. Dyma i chi ddau artist hynod dalentog ac mae eu gwaith yn adlewyrchu hynny. Diolch i'r ddwy am noson hynod ddiddorol.

**Cleifion**

Braf oedd clywed bod Idwal Hughes wedi dychwelyd adref yn ddiweddar ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Bu Melora Parry hefyd yn yr ysbyty dros nos ar ôl codwm. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonyn nhw.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Mae Mrs. Rae Davies wedi symud i Ysbyty Dewi Sant. Dymunwn yn dda iddi hi a Huw ei phriod. Mae Rae wedi bod yn flaenor diwyd a ffyddlon yn y Crwys am rai blynyddoedd.

Rydym hefyd yn cofio am yr holl aelodau sydd bellach yn gaeth i'w cartrefi. Rydym yn gweld eu heisiau yn yr oedfaon.

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Cynhaliwyd dau wasanaeth cofiadwy i ddathlu'r Nadolig, y naill o dan ofal yr Ysgol Sul gyda'r plant a'r ieuenctid yn cyflwyno neges yr Ŵyl yn syml a diffuant, a'r llall o dan nawdd y Gymdeithas o dan arweiniad y Dr. Diana Evans ar y thema 'Gwyddoniaeth, Hanes a Christnogaeth'. Diolch i'r llu o aelodau a gymerodd ran; oedfa i'w chofio a chynulleidfa dda.

**Y Gymdeithas**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Blwyddyn Newydd o dan arweiniad Hannah Thomas. Braf oedd gweld cynifer o rieni yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Diolch am wasanaeth hyfryd.

**Y Gorlan**

Cafwyd cyfarfod hynod ddiddorol ym mis Rhagfyr yng nghwmni y bardd, Gwyneth Lewis ar y testun 'Paratoi Cyfrol o Farddoniaeth' ac yna ym mis Ionawr yng nghwmni Cerian Angharad ar y testun 'Gwyddoniaeth – gyrfa i ferched?'

**Y Grŵp Merched**

Miss Eirian Edwards oedd y siaradwraig yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd a chafwyd anerchiad hynod ddiddorol am ei thaith ryfeddol i Rwmania. Arweiniwyd y defosiwn gan Mrs. Gwen Edwards.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Mae'r Gymdeithas Ddrama yn paratoi tuag at berfformio dwy ddrama fer oddeutu'r Pasg. Betsan Evans a Robin Pryderi Owen yw'r cynhyrchwyr. Byddai'r Gymdeithas yn falch o gael croesawu aelodau newydd, felly os am hwyl a chwerthin bob nos Fercher, dowch i Theatr y Crwys am 7.30.

**Croeso**

Mae croeso bob amser yn y Crwys. Beth am ymuno yn ein gwasanaethau? Y Gweinidog, y Parch Aled Huw Thomas fydd yn ein harwain ar y 4ydd a'r 18fed o Chwefror gyda'r Parch Denzil John yn gwasanaethu ar yr 11eg a'r Parch Meirion Morris ar y 25ain.

**Banc Bwyd**

Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at y Banc Bwyd dros y Nadolig ac i Siân Griffiths am y trefniadau.

## SALEM, TREGANNA

**Ifan**

Fel eglwys, rydym i gyd yn meddwl am un o'n haelodau ifanc, Ifan Owens, sy'n derbyn triniaeth arbenigol yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am ei rieni Mari a Gareth, a'i frawd Tomi, a'r teulu estynedig, gan obeithio am wellhad buan iddo dros y misoedd nesaf. Mae Ifan yn aelod ifanc hynaws, poblogaidd, bonheddig sydd â llu o ffrindiau yma yng Nghaerdydd ac yn y brifysgol yn Aberystwyth. Mae yn ein meddyliau a gobeithiwn allu cefnogi y teulu ym mhob ffordd posibl dros y misoedd nesaf.

**Bedydd**

Bedyddiwyd Serenella Perl, merch Ffion a Francseco a chwaer fach i Mabon yn Salem ar 21 Ionawr. Hyfryd oedd clywed y bedydd yn ddwyieithog gan Evan – yn yr iaith Eidaleg ac yn y Gymraeg.

**Bwydo'r Di-gartref**

Mae'r cynllun yn Salem bob nos Fawrth yn ystod misoedd y gaeaf yn rhoi lloches a swper a brecwast i'r di-gartref, ac rydym yn dra diolchgar i bawb sydd wedi gwirfoddoli a chyfrannu. Hoffem ddangos ein gwerthfawrogiad i'r gefnogaeth rydym wedi ei derbyn gan Ysgol Gymraeg Treganna ac Ysgol Gyfun Plasmawr. Cafwyd casgliad arbennig yn Nhreganna a Phlasmawr tuag at y prosiect ac fe gasglwyd dillad a nwyddau ymolchi gan y staff. Diolch am eich haelioni.

**Clybiau**

Mae'r clybiau'n ailddechrau ar ôl prysurdeb y Nadolig. Cyfarfu Adran yr Urdd ar 18 Ionawr i fwynhau gemau gan swyddogion yr Urdd. Cafodd Clwb y Bobl Ifanc noson hwyliog yn Ystafell Edwin yn mwynhau sglods a DVD ar nos Wener 19 Ionawr. Bydd y Grŵp Canu yn ailddechrau ar 20 Chwefror a chroeso i blant o dan oed cynradd ddod i'r clwb brecwast am 9.45 am yn ail fore Mercher.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Cydymdeimlad**

Cofiwn yn annwyl am ein haelod hynaf Anne James-Morse fu farw dridiau ar ôl y Nadolig. Bu Anne a'i gŵr David yn genhadon am gyfnod ym Mheriw, lle sefydlodd Anne adran radiograffeg. Daeth Anne yn rhugl yn y Sbaeneg a chafodd sawl cyfle i ymarfer yr iaith pan âi gyda David ar ymweliadau pregethu yn Ne America a Sbaen. Diolchwn am ei ffydd gadarn a'i chariad tuag at ei Gwaredwr. Fe welwn ei heisiau yn fawr ac estynwn ein cydymdeimlad â'r plant Simon ac Eleanor, a gyda'r teulu cyfan.

**Genedigaeth**

Llawenhawn gyda Andy a Catrin Gardiner ar enedigaeth Beca Grey, chwaer fach i Eila ac wyres fach newydd i Gwynn a Lis Williams.

**Ffarwelio**

Yn ddiweddar ffarwelion ni â Sara Borda Green wrth iddi ddychwelyd i'r Wladfa. Bu Sara yng Nghaerdydd am ychydig dros flwyddyn yn dilyn cwrs MA mewn Astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd, a braf oedd cael ei chwmni yn yr eglwys.

Llongyfarchiadau iddi ar ennill ei MA gyda Rhagoriaeth.

**Noson Gyri**

Trefnwyd Noson Gyri ddiwedd mis Ionawr i godi arian i Ysbyty LAMB yn Bangladesh. Treuliodd Rebecca Jones ddwy flynedd yn gweithio yn yr ysbyty fel anesthetydd gan hyfforddi rhai o'r gweithwyr yno. Bu nôl am fis yn ddiweddar yn cynorthwyo eto. Roedd yn fuddiol iawn clywed Rebecca unwaith eto yn sôn am anghenion dybryd y wlad dlawd hon, ynghyd â gwaith Ysbyty LAMB.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod cyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd cawsom gwmni'r Parch. Robert Owen Griffiths, Y Parch. Aled Edwards, a'r Parch. Jennifer Hurd yn ogystal â'n gweinidog y Parch. Evan Morgan. Ar 10 Rhagfyr cawsom fwynhau cyflwyniad hyfryd o stori'r geni gan blant yr Ysgol Sul. Yn dilyn y gwasanaeth daeth Sion Corn i ddosbarthu anrhegion. Y Sul canlynol tro'r oedolion oedd hi a bu cyfle i fwynhau cyfres o ddarlleniadau a charolau. Diolch i bawb a gymerodd ran heb anghofio cyfraniadau côr y capel. Ar noswyl Nadolig cafwyd gwasanaeth a chymun yn y bore dan arweiniad ein gweinidog ac am 11 yr hwyr cynhaliwyd gwasanaeth 'Naw Llith a Charol' dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Braf oedd gweld y capel yn llawn y noson honno. Roedd yn bleser hefyd i groesawu aelodau o gapel Salem a ymunodd â ni ar ddau ddydd Sul yn ystod yr Ŵyl.

Edrychwn ymlaen at weithgareddau'r flwyddyn sydd i ddod a dymunwn yn dda i Sylvan sydd newydd gychwyn ar gyfnod o waith gwirfoddol mewn cymunedau yn yr India. Pob hwyl hefyd i Llinos a Beryl ar eu taith estynedig yn y Dwyrain Pell.

## BETHEL, PENARTH

Er bod deufis wedi mynd heibio ers dechrau Tymor yr Adfent mae'r cof yn fyw o hyd am ddigwyddiadau yn gysylltiedig gyda'r Nadolig. Yn ôl hen arfer cawsom Wasanaeth Adfent ar Sul cynta'r Tymor. Cafwyd cyfraniadau amrywiol gan aelodau'r eglwys ynghyd â disgyblion Ysgol Penygarth, sy bob amser yn ymwelwyr derbyniol iawn gyda'u caneuon swynol. Yn nodedig eleni cafwyd cyflwyniad o stori'r Nadolig ar ffuf sioe bypedau gan Sianmeinir a'i theulu.

Ar 17 Rhagfyr buom dan ddylanwad cyfareddol y plant bach yn eu cyflwyniad o Ddrama'r Nadolig. Mawr ddiolch i'r sawl oedd wedi gweithio'n galed i'w hyfforddi. Does dim sicrwydd bod y perfformiad/ perfformans yn union fel y rihyrsal.

Ar Noswyl Nadolig buom mewn oedfa foreol undebol gyda'n cyfeillion yn y Barri ac yna, mewn arbrawf hollol newydd, cafwyd oedfa, eto ar y cyd, ym Methel yn cychwyn am un-ar-ddeg y nos ac yn mynd â ni i mewn i Ddydd Nadolig. Yr oedd y cyfan dan arweiniad dychmygus ein gweinidog; bu'n achlysur trawiadol o fendithiol.

Cawsom ein hoedfa undebol (7 Ionawr) i ddechrau'r flwyddyn dan ofal ein gweinidog. Ar 21 Ionawr, buom yn rhan o gynllun cangen Penarth o Gytûn pan fu cyfnewid pulpudau ymhlith gweinidogion y dref. Ar 28 Ionawr cawsom gwmni'r Parch. Haydn Thomas a gyfeiriodd ein myfyrdod ar y thema GWELD, gan ddewis yn destun y geiriau yn Ioan 12, 'Syr, ni a ewyllysiem weld Iesu'. Mawr ddiolch iddo am ei genadwri berthnasol a chadarn.

Llawenhawn gydag un o blant yr eglwys, Hannah Evans, sydd wedi'i dewis i ganu yn y gystadleuaeth Cân i Gymru; mi fydd Hannah yn cyflwyno un o'i chyfansoddiadau ei hun. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar S4C ar 1 Mawrth. Dymunwn bob hwylustod i Hannah yn y fenter.

## EGLWYS DEWI SANT

**Cristingl**

Cynhaliwyd y gwasanaeth Cristingl ar Ŵyl yr Ystwyll, pan gofiwyd am y Doethion yn dilyn y seren at y baban Iesu. Addas iawn felly oedd ein gorymdaith yng ngolau canhwyllau'r Cristingl a baratowyd gan blant yr Ysgol Sul. Roedd yn wasanaeth bendithiol a apeliai at bob oed a chafwyd casgliad arbennig ar gyfer Cronfa Archesgob Cymru er budd y Plant.

**Coffi a Chlonc**

Braf oedd gweld cynifer o bobl oedd eisiau cyfle i siarad Cymraeg ym More Coffi cyntaf y dysgwyr yn 2018. Cynhelir y nesaf fore Sadwrn, 17 Chwefror yn Neuadd yr eglwys.

**Clwb Cerdded**

Cyfarfu dwsin o gerddwyr ym maes parcio Canolfan y "Fourteen Locks" ger Casnewydd ar fore braf o Ionawr, er mwyn cerdded ar hyd y gamlas ac i fyny i Allt yr Ynn, lle cawsom olygfeydd bendigedig, cyn dychwelyd i gaffi`r ganolfan am ginio. Diolch i Shân Morgan am ein harwain. Gobeithir bydd y Clwb Cerdded yn ddigwyddiad misol.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs. Margaret Jones, Rhiwbeina a`r teulu wedi iddi golli ei chwaer, Joan Southern, a oedd yn byw yn Marlow.

**Dymuno`n dda**

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Rhian Linecar, ein curad, sydd wedi bod yn anhwylus ers cyn y Nadolig. Dymunwn adferiad buan iddi.

**Llongyfarchiadau**

Roedd pawb wrth ei bodd i glywed bod Siôn Brynach wedi cael ei dderbyn i hyfforddi ar gyfer yr offeiriadaeth. Hefyd, anfonwyd ein cyfarchion cynnes fel eglwys at dad Siôn, yr Esgob Saunders Davies, ar ei benblwydd yn bedwar ugain oed. BU Saunders wrth gwrs yn ficer Eglwys Dewi Sant ar un adeg

## EGLWYS MINNY STREET

**Estynnwn** groeso i bawb,' o'r ieuengaf i'r hynaf', i'n cyfarfodydd ar y Sul (10.30 a 18.00) ac yn ystod yr wythnos. Bydd **Oedfa i'r Teulu** fore Sul, 4 Chwefror a **Chymundeb** yn yr hwyr. Cawn arweiniad y Gweinidog a Chyfeillion yn yr **Oedfa Foreol Gynnar** am 9.30, 11 Chwefror. Ddydd Sul, 18 Chwefror bydd yr oedfa Foreol a'r Oedfa Hwyrol dan arweiniad y **Parchedig Guto Llywelyn** (Rhydaman). Bydd **Ysgol Sul 18 a 25** Chwefror.

Yn **Y Gymdeithas** cawn glywed am 'Filltir Sgwâr' Helen Emanuel Huws a John Gilbert Evans, 13 Chwefror, yna 27 Chwefror bydd y Gwir Barchedig Ddr Barry Morgan yn sôn am 'Yr Eglwys yng Nghymru, a fy ngwaith fel Archesgob'.

Bydd **PIMS** yn cwrdd 5 Chwefror a **Babimini** 2 ac 16 Chwefror.

Ymunwch â'r oedolion yn **Bethania** 19.30 6 a 20 Chwefror i glywed mwy o hanesion pobl yr Hen Destament.

Bydd **Koinônia** am 12.00, 14 Chwefror ac am 19.30 18 Chwefror i'r rhai fydd wedi archebu ymlaen llaw.

**Genedigaeth:** Croeso cynnes i **Gruffudd Elis Noakes,** mab Catrin a David (Y Tyllgoed). Pob dymuniad da i'r teulu.

**Priodas:** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i **Elfrys a Ieuan Davies** ac i **Stephanie a Geraint Williams** yn dilyn eu priodasau ym Minny Street ym mis Rhagfyr.

## EGLWYS Y TABERNACL

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau i ddau o'n haelodau, sef Rhys ab Owen a Manon George, ar eu dyweddïad dros y Nadolig. Byddant yn priodi yng nghapel teulu Manon yng Nghricieth.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Glyn a Margaret Rees wrth iddynt groesawu ŵyr newydd, Osian Gruffydd, i'w teulu.

**Ordeinio Rob Nicholls**

Braint arbennig ar ddechrau mis Ionawr oedd cael bod yn y gynulleidfa yn Castle Street, Llundain wrth i Rob Nicholls gael ei ordeinio'n weinidog ar y eglwys. Cawsom fraint i fod yn bresennol yn yr oedfa bwysig, urddasol a didwyll hon. Teithiodd llond bws i fyny i Lundain i weld cyn-ysgrifennydd ac organydd y Tabernacl yn cael ei anrhydeddu. Roedd gweld y capel yn orlawn yn dyst i'r ffaith ei fod yn ddewis doeth a phoblogaidd i ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn.

**Cofio Diana Owen**

Yn gynnar ym mis Rhagfyr, bu farw Diana Owen. Bu hi a'i diweddar briod Glyn yn byw yn Llundain a Radur cyn symud i Benarth. Roedd yn selog yn y Tabernacl ac yn ymwneud gyda llu o weithgareddau'r eglwys, yn cynnwys llywio gwaith gyda'r Tê i'r Di-gartref am sawl blwyddyn.

**Oedfaon y Nadolig**

Cafwyd sawl oedfa yn ystod cyfnod yr Adfent i ddathlu'r Ŵyl. Roedd oedfa'r plant yn achlysur hwyliog gyda nifer dda yn cymryd rhan yn y cyflwyniadau. Diolch i Owain Evans am sgriptio'r cyflwyniad eleni eto ac i Mair Long am y gerddoriaeth.

Bu dwy oedfa ar ffurf naw llith a charol gyda chynulleidfaoedd teilwng yn bresennol ac yn yr un modd daeth nifer ynghyd ar fore'r Nadolig i ddathlu'r dydd. Roedd nifer o ymwelwyr yn bresennol yn yr oedfa hon, rhai ohonynt wedi teithio lawr ar fws i fwynhau Nadolig mewn gwesty yng Nghaerdydd.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Dechreuodd gweithgareddau'r Flwyddyn Newydd gyda noson yn Yr Hapus Dyrfa i ddathlu'r Calan. Yna cafwyd noson arbennig o adloniant cerddorol yng ngwmni Ann Williams a Mehefin Parry Jones.



*Densil Morgan a Rob Nicholls yn yr oedfa ordeinio*

(parhad o dud. 12) **Bwytai Merch y Ddinas**

Dwi'n amau hynny'n fawr, ond does dim byd yn bod ag arbrofi, ac addasu ein patrymau bwyta o ddydd i ddydd. Mae'n grêt i weld cynydd yn y nifer o gyrchfannau atyniadol sy'n normaleiddio profiad sydd ar gynnydd ledled y byd. Cofiwch am fy llyfr *Canllaw Bach Caerdydd* sy'n rhannu rhagor o syniadau am leoliadau figanaidd a llysieuol. A gwyliwch allan am gwmni bwyd-y-stryd lleol newydd *Greazy Vegan* fydd yn lawnsio yn ystod mis Chwefror. Yna ym mis Mawrth bydd y flogwraig Sarah Philpott, sy'n Gymraes Gymraeg, yn cyhoeddi ei chyfrol ryseitiau gyntaf gyda Seren Books. Rwy'n hoff iawn o'r teitl, *The Occasional Vegan*, sy'n cynnig y dewis o hunaniaeth newydd i ni gyd.

*Blanche Bakery, 16 Mackintosh Place, Y Rhath CF24 4RQ (07426000528)*

*Anna Loka, 114 Albany Road, Y Rhath, CF24 3RU (02920 497703)*

*Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99*



# Y PRIFATHRO EMERITWS DAFYDD G DAVIES 1922-2017



Ganwyd y Prifathro Emeritws, Y Parch Dr Dafydd G Davies, B.A. B.D., ar 1 Gorffennaf 1922 yn Prysgol, Y Ffôr, Abererch ger Pwllheli. Ar y pryd roedd ei dad, Parch J Clement Davies, 1896-1982 yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Llithfaen a Tyddynshôn, 1917-1922. Disgrifiwyd ei fam fel gwraig ddiwylliedig sef Gwen Ellen Griffith, 1894-1970, un o Gaernarfon ac athrawes Gymraeg cyn priodi yn 1921. Rhai misoedd yn ddiweddarach roedd y teulu bach o dri ar daith i Gastellnewydd Emlyn lle bu Clement Davies yn weinidog Capel y Graig tan ymddeol yn 1963.

Addysgwyd Dafydd Davies mewn ysgol gynradd yng Nghastellnewydd cyn symud i Ysgol Uwchradd Aberteifi tan 1941 lle dewiswyd ef yn brifddisgybl. Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yn Nhreharris ger Merthyr Tudful ar ddiwedd Awst 1939 ac yno yn ddisgybl ysgol 17 oed y clywodd yr alwad i'r Weinidogaeth Gristnogol; afraid dweud gyda'r Bedyddwyr. Diogelwyd y mwyafrif o'i ddyddiaduron enwadol UBC 1939 tan 2017 a diddorol iawn yw nodi cychwyniadau oes o bregethu: yn festri'r Graig nos Iau, 16 Tachwedd 1939, 'Deuwch ataf fi bawb ar y sydd yn flinderog.' Y tri Sul dilynol bu'n pregethu 'ar brawf'. Dengys y dyddiadur bod 90 mil o aelodau ar ddiwedd y 30au ond erbyn heddiw ceir llai na 10 mil.

Treuliodd 1941-50 fel myfyriwr diwinyddol ym Mangor yn astudio Economeg, Y Clasuron a Diwinyddiaeth cyn dwy flynedd o waith ymchwil ar y Testament Newydd yng Ngholeg Mansfield, Rhydychen. O fewn pedwar diwrnod ar ddechrau mis Gorffennaf 1952 ordeiniwyd a sefydlwyd Dafydd Davies yn weinidog ar Ynys Môn, ym Moreia Pentraeth a Seion Llanfair M E, ac yna priodi ei wraig Kitty Jones, 1919-2005, a anwyd yn Wattstown, Rhondda Fach, ei magu yn Nhreganna Caerdydd cyn symud i Fangor tua 1935.

Yn haf 1955 derbyniodd Dafydd Davies swydd fel athro yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd. Syndod oedd arddeall flynyddoedd yn ôl nad oedd syniad ganddo faint o gyflog oedd iddo yn Heol Richmond. Gallai ddim bod yn llai na'r gydnabyddiaeth ar ddwy eglwys fach ar Ynys Môn oedd ei ymateb ffraeth! Yna yn 1970 apwyntiwyd ef fel prifathro'r Coleg ac yno arhosodd tan 1985 pan ymddeolodd ychydig yn gynnar, gan fod iechyd ei wraig yn dechrau dirywio. Roedd gan y Seiri Rhyddion gynllun ar waith i apwyntio cynweinidog i'r swydd enwadol bwysig hon. Basai Dafydd Davies wedi dychwelyd i'r Weinidogaeth tasai'r bleidlais wedi mynd yn ei erbyn! Gweithiodd y prifathro newydd a'i wraig Kitty yn galed a chydwybodol iawn rhwng 1970-85 i addysgu a chynorthwyo degau ar ddegau o fyfyrwyr diwinyddol ar gychwyn eu gyrfaoedd. Gwerthfawrogwyd eu hymdrechion gan nifer pan ddaeth cardiau a phob math o negeseuon cydymdeimlo i law yn ddiweddar.

Darlithiodd a phregethodd yn lleol, trwy Gymru, Lloegr a sawl ymweliad ag Unol Daleithiau yr Amerig. Dengys ei ddyddiaduron ei bod hi'n Gyrddau Mawr sawl penwythnos yn olynol. Nid oedd pregethu ar nos Sadwrn yn brofiad dieithr iddo! Ar ôl colli ei wraig yn Medi 2005 wedi 53 blynedd o briodas hapus cofiaf ofyn iddo tybed a oedd ganddo unrhyw syniad mewn sawl capel roedd e wedi pregethu. Dim syniad ar y pryd ond aeth ati am wythnosau i'w cyfrif a'r cyfanswm terfynol yn 890. Dim ond un sydd wedi honni iddo bregethu mewn mwy sef y Parch Dr D Ben Rees, Lerpwl, yn ei hunangofiant difyr, wedi mynd heibio'r mil!

Gwasanaethodd fel llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn 1986 a thraddododd anerchiad gofiadwy o bulpud Penuel Rhos sef 'Galwad y Gair.' Arweinydd naturiol yn llawn syniadau a gweledigaeth enwadol oedd ef yn aml, a ffrwyth ei ymdrechion oedd Gŵyl y Gair ar Gân poblogaidd ar ddiwedd yr 80au ac ef hefyd oedd un o brif sylfaenwyr Côr Bedyddwyr Cambrensis. Bendithiwyd miloedd trwy ganu'r côr hwn fel y gwelwyd mewn neges Drydar yn ddiweddar.

Bu'n aelod diwyd o Gydbwyllgor Cyngor Eglwysi Cymru, Panel Cyfieithu'r Testament Newydd. Cyhoeddwyd y Testament Newydd yn 1975 a'r Beibl Cymraeg Newydd (BCN) yn 1988. Cyhoeddodd 'Dod a Bod yn Gristion' sef 'Myfyrdodau ar Lythyr Paul at Y Rhufeiniaid' yn 1984 a Darlith Syr D J James Pantyfedwen 1986, 'Canon y Testament Newydd Ei Ffurfiad a'i Genadwri.'

Rhaid cyfeirio at ei hoffter o chwaraeon, pêl-droed, criced a dechreuodd chwarae golff wrth gyrraedd y deugain oed. Roedd gwrando arno yn adrodd yr hanes am ei daith hir o Ynys Môn i Gaerdydd ar ddydd Sadwrn, 19 Rhagfyr 1953 yn wefreiddiol. Dyna oedd y tro olaf i Gymru guro'r Crysau Duon (13 - 8). Roedd ef yno er does dim golwg o raglen na thocyn i gofio'r fuddugoliaeth hanesyddol yn hen Barc yr Arfau!

Bu farw yn ei gartref, nos Fercher, 13 Rhagfyr, nid o salwch ond o henaint, baich y blynyddoedd, yn 95 oed. Tad Gwilym a'r efeilliaid Megan a Gwen. Taid Owain a Geraint a'u teuluoedd. Gŵr arbennig iawn yn llawn gwerthfawrogiad am bob gofal a dderbyniodd a chof arurthrol bron tan y diwedd. A 'Real Madrid' o bregethwr grymus mewn dyddiau o nerth 1939-1989. Cynhaliwyd ei angladd yn Tonyfelin Caerffili, un o hen gapeli yr enwog Christmas Evans a Chapel y Wenallt Amlosgfa Bryn Drain lle daeth rhyw 170 ynghyd yn y ddau le i dalu'r gymwynas olaf ar 2 Ionawr, 2018. Bu Dafydd Davies yn llawn hiwmor iach tan y diwedd ac os dywedaf bod o leiaf 30 pregethwr yno, digon i ffurfio enwad newydd, basai'n siwr o wenu os nad chwerthin!

*Mae hi yn fwriad gen i i roi gair pellach ar bapur ac mae gen i 14 pennawd yn barod ar gyfer rhyw 6 neu 7 mil o eiriau. Mae'r 'bregeth' megis yn fy mhen ac os bydd rhywrai am glywed mwy o hanes DGD, gallaf gynnig sgwrs fach 45 munud os bydd rhyw siaradwr ddim yn medru dod draw am ba reswm bynnag. Yn wir os oes unrhyw gymdeithas ac ati am godi mwy o arian i Eisteddfod Bae Caerdydd 2018, os medrwch sicrhau cynulleidfa o 20 i dalu £5 y pen, dyna gan punt ychwanegol i'r achos.*

*Gwilym Dafydd*

# Bwytai Merch y Ddinas

*"roedd pawb a'i nain am fyw fel figan dros dro"*



**Lowri Haf Cooke**

Blwyddyn newydd dda i chi, ddarllenwyr hoff y golofn hon! Gan ddymuno 2018 llawn daioni, ac iechyd da! Fe gychwynnais i fy Ionawr ar ynys amryliw Lanzarote, yn mwynhau blasau newydd sbon. Ynghyd â gwinoedd rhagorol a bwyd y môr, blasais sawsiau difyr iawn, fel *mojo roja* (saws tsili, garlleg a phupur coch) a *mojo verde* (saws coriander, garlleg, cumin a phupur gwyrdd). Muy bien! Dychwelais adre, yn naturiol, i dywydd gwahanol iawn, gan fynd i'r arfer yn syth o goginio bwyd 'cysur' i mi fy hun. Fel y gwyddoch, does gen i'm diddordeb mewn amddifadu fy hun o bleserau bywyd dros fisoedd geirwon y gaeaf. Ond yn dilyn y dathlu mawr, fe geisia i gadw'r gwariant i lawr, ac felly bydda i'n aml yn mynd – o wirfodd – heb ddarn o gig.

Mae'n weddol rhwydd a dweud y gwir; dim ond chwinciad gymerith hi i baratoi cawl llawn blasiau, fel moron ac oren neu goriander am ginio maethlon wnaiff bara rhai dyddiau. Ac fe allen i fyw ar omlets yn fodlon iawn am weddill fy myw, 'mond i mi amrywio'r cynhwysion o bryd i'w gilydd. Fy ffefryn, heb os, yw fy nheyrnged i i omlet brecwast Dottie's True Blue Cafe yn San Francisco; nionod a garlleg, tomatos a tsili, caws mozzarella a pharmesan. Dyma'r nesaf peth at bizza a flaswch chi erioed, ond heb eich gadael yn orlawn ac yn ysu am siesta ar hyd y prynhawn.



*Anna Loka*



**Becws *Blanche***

Y cwestiwn mawr wrth gwrs o hyd ydy, a allen i wahardd cig yn llwyr? Mae gen i ofn mai'r ateb yw na. Ond ag ystyried y bues i'n bwyta cig bob dydd, dwi'n credu mod i'n gwneud yn eitha da, os ydw i'n dweud fy hun.

Ond i roi pin yn fy swigen o smygrwydd ddechrau'r flwyddyn, daeth ffenomenon *Veganuary* i daro fy myd. Aeth y papurau a'r cylchgronau yn honco bost, wrth hyrwyddo'r gair cyfansawdd mwyaf poblogaidd ers i *Brangelina* fynd ar chwâl. Mae'n debyg bod cynnydd o 350% wedi'i nodi yn y nifer o figaniaid dros y ddegawd ddiwethaf, sef pobol sy'n ymwrthod yn llwyr â chynnyrch llaeth, wyau a chig. Trodd nifer at blanhigion yn unig ar gyfer eu bwyd am resymau moesol, gan wrthwynebu creulondeb i bob bod byw. Trodd eraill am resymau iechyd, anhwylderau ac alergeddau, ac ambell un dan ddylanwad ffasiwn, ac ambell *seleb*.

Wel, o dystio i lu o luniau *twitter* ac *instagram* roedd pawb a'i nain am fyw fel figan dros dro; clywyd am ragoriaethau ffacbys, seitan, tofu a fake-on, a threuliwyd oriau'n socian cnau i greu 'llaeth'. Byddai bywyd o'r fath un cam yn ormod, meddyliais i; byddai'n amhosib... bydde dim blas byw. Byddai'n rhaid byw fel byji ar fflapjacs llawn hadau, neu ddibynnu'n helaeth ar selsig ffug a reis brown.

Wel rhag fy nghywilydd am fod mor ragfarnllyd, nawddoglyd a di-ddychymyg! Mae na ddigon o ffyrdd o osgoi wyau, cig a llaeth yn mwytai niferus Caerdydd; beth am y *dhals* a *pakoras*, sawsiau a *samosas* mewn tai cyri o Dremorfa i Drelai? Mae diodydd meddwol fel cwrw lleol (Tiny Rebel a Crafty Devil yn eu plith) yn dderbyniol - gofynnwch i'r gweinydd am gyngor ger y bar. Ac mae nifer o fwytai mawrion yn cynnig prydau bwyd figan, cymaint o alw sydd amdanynt erbyn hyn. Ac nac anghofier hen ffefrynnau sydd ag arlwy figan ers blynyddoedd mawr; o'r *Vegetarian Food Studio* yn Grangetown, caffi *Crumbs* yn Arcêd Morgan, *Cafe Atma* yng nghanolfan y Capitol, a stondin *Milgi* yn marchnad ganolog y dre.

Yn wir, yn dilyn llwyddiant Milgi, sy'n cynnig seigiau llysieuol, a figanaidd ers tro byd (gan gynnwys coctels, saladau maethlon a chinio Sul), agorwyd dau gaffi arall nid nepell i ffwrdd, gan greu 'hyb' o fwytai figan yn y Rhath. Y llynedd, derbyniodd fwydlen *Anna Loka* glôd y diddanwr Russell Brand, tra roedd yn perfformio yng nghanol y dre. A phan ês innau am frecwast yn dilyn bŵtcamp ffitrwydd Parc y Rhath, ges i fy siomi ar yr ochr orau, rwy'n falch i ddweud.

Â minnau'n chwys i gyd, ro'n i'n awchu am gig - am chwistrelliad o egni a dweud y gwir. Ond ges i frecwast Califforniaidd anhygoel o flasus, a phancos llus a banana o fri. A ddoe ddwetha' galwais i fewn i fecws eithriadol o braf lathenni'n unig o groesfan 'Death Junction'. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae waliau *Blanche* yn wyn i gyd – yn hafan *hyggelig*, a *minimalist chic*. Toesion a chacennau cwpan yw'r prif ddanteithion ar hyn o bryd, ynghyd â brechdanau, a choffi Coaltaown o Landybîe. Mwynheais *latte chai* perffaith, gyda 'llaeth' cnau almwn, a thoesyn *French Toast* ag eisin sinamwn blasus tu hwnt. Ni hiraethais o gwbl am yr un wy na chynnyrch llaeth wrth brofi danteithion nefolaidd becws Blanche.

Ydy'r niferoedd ar *instagram* am lynu i'w hymrwymiad figanaidd am byth? (parhad ar dud. 10)

# Merched y Wawr Bro Radur

**Dathlu'r Nadolig - Rhagfyr**

Gyda choeden Nadolig a'i goleuadau bach yn disgleirio ar bwys y llwyfan a sain carolau hen a newydd yn llifo o dannau telyn Ann Williams, roedd yr awyrgylch wedi'i osod yn Eglwys y Methodistiaid yn Radur ar gyfer rhaglen nodwedd â naws Nadoligaidd arbennig iddi. Mae'n wir fod yr hanes am y Nadolig cyntaf hwnnw ym Methlem yn hen, hen stori erbyn heddiw, ond mae gan ein llenorion a'n cerddorion rhyw ddawn anhygoel i weu ffresni a newydd-deb rhyfeddol i mewn i'r digwyddiadau cyfarwydd. Cawsom y cyfle felly, yn ystod y cyflwyniad i werthfawrogi nid yn unig farddoniaeth a chaneuon traddodiadol yr Ŵyl, ond nifer o ddarnau a myfyrdodau cyfoes. Mae'n diolch yn fawr i Rhiannon Evans am drefnu'r rhaglen ac i'w chriw bach talentog a'i cyflwynodd i ni ar lafar ac ar gân.



*Dathlu'r Nadolig*



*Croesawu 2018*

Er i ni gael digon i gnoi cil arno yn y rhaglen, roedd gwledd fwytadwy o ddanteithion Nadoligaidd ac addurniadau tymhorol yn disgwyl amdanom yn y festri. Ac roedd pawb wrth eu boddau yn blasu rhai o hoff ryseitiau Nadolig aelodau o'r pwyllgor.

Cawsom hefyd y cyfle ar y noson i groesawu Jén Dafis, swyddog datblygu newydd rhanbarthau'r De-Ddwyrain a De Powys i'n plith. Hyfryd oedd gweld ei brwdfrydedd a theimlo'n gartrefol yn ei chwmni.

Noson i'w chofio yn wir, ac un a fydd yn dwyn atgofion melys.

**Croesawu'r Flwyddyn Newydd – Ionawr**

A ninnau'n cyfarfod yn gynnar iawn yn y flwyddyn newydd, addas iawn oedd cael noson i groesawu 2018 dan arweiniad Ruth Davies. Dechreuwyd gyda myfyrdod gan Carys Tudor Williams, a chawsom anogaeth i werthfawrogi pob diwrnod.

Yna cafwyd cyfres o 'Ddarluniau yn y Pen' gan Ruth Davies. Edrychwyd ar yr arferion Calennig mewn gwahanol ardaloedd o Gymru ac ymunodd pawb i ganu'r hen benillion yr arferid eu canu wrth fynd o ddrws i ddrws yn mofyn arian neu fwyd. Cawsom ein hatgoffa mai tlodi aruthrol oedd y tu cefn i'r arferion hyn yn wreiddiol. Ail ddarlun oedd yr oerni a gysylltir â mis cyntaf y flwyddyn, a hwnnw wedi ei ddarlunio'n berffaith yng ngherdd Eifion Wyn i Ionawr. Trydydd darlun oedd y robin annwyl sydd wastad yn llwyddo i ddwyn gwên i'r wyneb wrth iddo ddod at y drws i chwilio am damaid o fwyd. Gorffennwyd gyda darlun o obaith wrth ystyried y gwanwyn. Er bod stormydd y gaeaf wedi bod yn rhuo, a'r oerni yn gafael, o edrych yn ofalus fe welwn arwyddion y gwanwyn o'n cwmpas - y dydd yn ymestyn, eirlysiau a briallu yn dechrau blodeuo, cynffonnau ŵyn bach yn addurno canghennau'r coed cyll ac yn fuan fe welir dail cleddyfog y cennin Pedr yn dechrau ymwthio trwy'r tir.

Gwnaethpwyd casgliad o fwyd ar y noson ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. O ystyried geiriau Eifion Wyn yn ei delyneg i fis Ionawr, mae'n amlwg nad rhywbeth newydd yw'r angen yma yng Nghymru:

Mae rhywrai heb dŷ, a rhywrai heb dân,
**A rhywrai heb fara**, na chwsg, na chân.

---

# Pobol y Rhigwm

Cyfarchion o gornel Pobol y Rhigwm! Gosodwyd tasg heriol yn rhifyn Tachwedd, (tasg rhif 10), sef llinell o gynghanedd yn cynnwys y gair 'Ewro' neu 'Ewrop'. O gofio bod dosbarthiadau cynganeddu dan ofal Menter Caerdydd yn llawn beirdd a phrentisfeirdd, does dim syndod fod cannoedd o gynigion wedi dod i law. Gan fod prinder gofod, ni ellir ond dyfynnu tair ymgais yma. Braf gallu dweud bod y rhan fwyaf ohonynt yn gywir.

Cynnig Brecsitgar a gafwyd gan **Dyledwr**, neu o bosib ei fod yn eironig:

I Ewrop aiff ein harian.

Mae bai 'rhy debyg' yn y llinell isod, gan **Tlotyn**.

Rwy'n Ewrop heb 'r un Ewro.

Caiff yr anoraciaid yn eich plith chwilota yn Anghenion y Gynghanedd i gael gwybod beth yw ystyr hynny.

Cynghanedd Lusg seml sydd ganddi, ond cwestiwn rhethregol **Mai** yw'r llinell orau, yn fy marn i:

Ai dewr yw gadael Ewrop?

Diolch i'r holl feirdd am gystadlu.


**Y dasg y tro nesaf (tasg rhif 12) fydd pennill i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol**. Gall fod yn bennill, limrig neu'n englyn.
Anfonwch eich cynigion at db.james@ntlworld.com erbyn 10 Mawrth os gwelwch chi'n dda.

**Enillydd tasg rhif 10 yw**
**Eirian Dafydd, Yr Eglwys Newydd**

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yn ystod y ddau fis o gwmpas y Nadolig cafwyd cyfarfodydd amrywiol a diddorol.

Yn gyntaf, cafwyd hanes y daith a gymerodd y Parchedig Ddoctor R. Alun Evans i Stellenbosch, De Affrica, 25 cilomedr o Capetown, i gynhadledd Annibynwyr y Byd yn 40 oed ar y testun “*Rhyddid mewn Addoliad*”. Ar wahan i'w brofiadau yn y gynhadledd, rhoddodd ddisgrifiadau clir o'r enwogion a gyfarfu yno, o'r wlad hardd, y trefgorddau, o'r Table Mountain i Ynys Robben, lle carcharwyd Nelson Mandela. Pwysleisiodd yr hapusrwydd anghyffredin oedd ar wyneb y plant. Da oedd clywed am y profiadau a wnaeth gymaint argraff arno ef a'r gwrandawyr ar brynhawn arbennig.




Dr Dylan Foster

I ddathlu Gŵyl y Geni paratowyd gwasanaeth o ddarlleniadau, barddoniaeth a charolau addas. Y Parchedig Owain Llyr Evans gyflwynodd y myfyrdod. Casglwyd £162 i Dŷ Hafan. Yn dilyn, paratodd y gwragedd de blasus, a noddwyd gan *Age Cymru*.

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, Dr Dylan Foster Evans oedd y siaradwr ar y testun “*Y diwydiant treftadaeth a'r iaith Cymraeg*”. Ef yw pennaeth Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a'i arbenigedd, ymhlith testunau eraill, yw yr Iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae'n amlwg ei fod yn ymchwilydd eang a'r myfyrwyr yn elwa'n helaeth o'i ddawn – gŵr athrylithgar, yn wir!

Pythefnos yn ddiweddarach, Ann Saer, yr athrawes boblogaidd a'r hanesydd dawnus fu'n diddori ei chyd-aelodau dan nawdd Amgueddfa Cymru Caerdydd. Ei thestun oedd yr arlunydd Thomas Jones, Trefonnen, Pencerrig, Llandrindod (1742 – 1803). Er i'w rieni geisio ei dywys i'r weinidogaeth yng nghyfnod y Sentars Methodistaidd, rhoddodd ei fryd ar fod yn artist. Aeth i Lundain a byw bywyd Bohemaidd a gwyllt yno. Daeth dan ddylanwad yr artist Richard Wilson yn 1763. Aeth i fyw i'r Eidal, i fae Naples yn 1776. Wedi rhai blynyddoedd yno, aeth a'i deulu 'nôl i Landrindod yn 1783 a byw fel sgweiar stad ei rieni. Bu'n brynhawn diddorol wrth edrych ar y gwahanol steil o beintio o'i eiddo o'r tirluniau trawiadol Cymreig ac Eidalaidd, a'r sylw uniongyrchol a roddai i'r testun – prynhawn i'w gofio!



Dr Alun Evans



Ann Saer

---

# Cymrodorion Caerdydd

Y digrifwr a'r dramodydd Idwal Jones oedd pwnc cyflwyniad Cyril Hughes i gyfarfod Rhagfyr o Gymrodorion Caerdydd. Darllenwyd enghreifftau o'i waith gan Margaret Hughes.

Ganed Idwal Jones yn Llanbedr-pont-Steffan yn 1895. Rhwng 1915 a 1919 bu yn y fyddin, gan wasanaethu am gyfnod yn Nwyrain Affrica. Wedi hynny bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, gan raddio mewn Saesneg, ac yna cael swydd am dymor byr fel Prifathro Ysgol Pont-ar-fynach, cyn cael ei apwyntio fel Tiwtor yn Adran Efrydiau Allanol ei hen goleg.

Gellir dweud i Idwal Jones ymestyn llên ddigri yn y Gymraeg. Bu gwaith Edward Lear, awdur *Book of Nonsense* (1846) yn ddylanwad arno, fel sy'n amlwg wrth ddarllen cyfrolau fel *Cerddi Digri a Rhai Pethau Eraill* (1934) a *Cerddi Digri Newydd a Phethau o'r Fath* (1937). Ef, yn fwy na neb, a boblogeiddiodd y limrig yn ein plith fel Cymry Cymraeg.

Nid doniolwch diniwed oedd yr hiwmor bob amser – gallai fod yn finiog iawn, yn y cerddi a'r dramau fel ei gilydd. Un o'i ddramâu enwocaf oedd *Pobl yr Ymylon* (1927) lle mae'n dinoethi'r hyn a welai fel rhagrith cymdeithas barchus, gapelyddol, ei ddydd. Gwnaeth Cyril Huges y pwynt, fodd bynnag, mai beirniadu ei gymdeithas o'r tu mewn roedd Idwal Jones, ac nid gwneud sbort ohoni fel y gwnaeth Caradoc Evans gyda'i storïau byrion, *My People* (1915). Yn wir, cyfansoddodd Idwal Jones sgit ar lyfr Caradoc Evans dan y teitl *My Piffle* (1927).

Ar ddechrau tridegau'r ugeinfed ganrif manteisiodd cyfrwng newydd y radio ar ddoniau Idwal Jones. Efallai mai ei gomedi gerddorol *Yr Eosiaid* (a gyfansoddodd yn wreiddiol pan oedd yn fyfyriwr) oedd ei gyfraniad mwyaf cofiadwy. Yn ddiau, yr oedd yn arloeswr ym maes adloniant ysgafn Cymraeg. Ni bu yn gryf ei iechyd erioed, a bu farw yn 1937.

# Ysgol Bro Morgannwg

**Newyddion Trawsgwlad a Gymnasteg**

Tymor y **Trawsgwlad** yw hi ac mae disgyblion Bro Morgannwg wedi serenu eleni! Ar ddechrau mis Rhagfyr roedd cystadleuaeth Ysgolion De Cymru ac fe gafwyd sawl perfformiad clodwiw ar y diwrnod. Llongyfarchiadau arbennig i dîm trawsgwlad merched blwyddyn 9 a 10, sef Moli Lyons, Glesni Siôn, Poppie Davies a Libby McKinney ar ddod yn ail ym mhencampwriaeth trawsgwlad Ysgolion De Cymru. Yna aeth y disbyblion ymlaen i gystadleuaeth Trawsgwlad Ysgolion Cymru yn Aberhonddu a chafwyd diwrnod gwych. Dyma ganlyniadau'r dydd:



Merched Bl.11+ - **PENCAMPWYR CYMRU!!**

Bechgyn Bl.11+ - 4ydd

Merched Bl.9/10 - 5ed

Bechgyn Bl.9/10 - 4ydd

Merched Bl.7/8 - 2ail gyda Gwenno Goode yn 3ydd yn y ras unigol.

Bechgyn Bl.7/8 - 3ydd

**Llwyddiant Golff**

Bydd Ceri Vaughan Jones o Flwyddyn 11 (gweler llun ar y clawr) yn cystadlu yn yr 'Home Nations Junior Inter Club Golf Championships' fis Mawrth nesaf. Cynhelir y gystadleuaeth, a fydd yn cael ei darlledu ar SKY, yng Nghlwb Golf Morgado yn yr Algarve lle bydd timau o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cystadlu ar gyfer Tlws Nigel Dolton.

Mae Ceri yn falch ei fod yn cynrychioli Clwb Golff Radur yn y gystadleuaeth. Y clwb yw pencampwyr presennol Cynghrair Ieuenctid Morgannwg ac o ganlyniad fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan ym Mhencampwriaeth Timoedd Ieuenctid Cymru yn Llanfair ym Muallt ddechrau Tachwedd. Llwyddodd Ceri a'i dîm i guro Clwb Golff Caerfyrddin gan un ergyd, ac o ganlyniad enillon nhw eu tocyn i Bortiwgal. Mae Ceri wedi cael tymor gwych hyd yn hyn a dymunwn bob llwyddiant iddo ef a'i dîm.

**Siarad Cyhoeddus**

Mae Huw Jones o flwyddyn 11 (gweler llun ar y clawr) wedi cael ei ddewis ar gyfer Sgwad Datblygu Dadlau Cymru. Mae yna 10 person yn y sgwad ac maent ar fin dechrau cyfnod o hyfforddiant cyn mentro ar y cystadlu. Fe fydd 5 allan o'r 10 ar y tîm yn cael eu dewis ar gyfer Pencampwriaeth Dadlau Ysgolion y Byd yn 2018 yn Croatia. Mae Huw hefyd wedi cael ei ddewis i gynrychioli Lloegr a Chymru mewn cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Rhynglwladol yn Llundain fis Mai.

Mae Huw wedi dangos ar sawl achlysur ei fod yn hen law ar gystadleuthau dadlau. Y llynedd bu'n llwyddiannus yn ennill fel rhan o dîm yng Nghystadleuaeth Cenedlaethol Siarad Cyhoeddus Prydain ac yn ogystal cafodd ei enwi fel y Siaradwr Gorau. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

**Dim Ond y Dewr**

Unwaith eto eleni fe wynebodd aelodau Chweched Dosbarth Bro Morgannwg ac ambell athro dewr donnau rhewllyd traeth Y Barri. Ers chwe mlynedd mae 'Brooo Morgannwg' wedi bod yn uchafbwynt ar galendr blynyddol y chweched dosbarth wrth iddynt wynebu oerfel y môr a chodi arian i elusennau a gefnogir gan yr ysgol. Eleni aeth 25 disgybl a 9 athro i'r môr i godi arian i'r elusen 'Young Minds'. Dyma ddewis elusen y disgyblion eleni a pharhau mae'r ymdrechion i godi arian.

---

# Ysgol Penygarth



Mae Elodie Wilton o Ysgol Pen y Garth wedi cael rhan actio ar raglen 'Craith' ar S4C. Dyma gyfweliad byr gyda hi.

***Sut gefaist di'r rhan ar raglen 'Craith'?***

Roedd fy asiant wedi dod o hyd i'r rhan. Yna roedd angen i mi fynd am gyfweliad.

***Beth oedd wedi dy ysbrydoli i ddechrau actio?***

Rydw i wedi mwynhau actio ers amser hir, ond siwr o fod ymuno â chlwb drama oedd wedi ennyn fy niddordeb.

***Beth wyt ti'n hoffi fwyaf am actio?***

Y peth gorau am actio yw cael cwrdd â phobl newydd a mynd i lefydd gwahanol. Rydw i wedi bod yn lwcus iawn i gael mynd i Ogledd Cymru ac i Baris.

***Wyt ti'n credu y gall unrhyw un actio?***

Ydw, oherwydd hyd yn oed os nad ydych yn cael y rhan yn y cyfweliad cyntaf rhaid i chi ddyfalbarhau a thrio eto mewn cyfweliad arall.

# Ysgol y Wern

**Pencampwyr Nofio Cymru**
Llongyfarchiadau i dîm Ras Gyfnewid Bechgyn bl.3 a 4 a ddaeth yn gyntaf yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd. Hefyd i ddau dîm bl.5 a 6 a ddaeth yn ail. Llongyfarchiadau mawr i Thomas Prickett bl.4 a ddaeth yn 3ydd yn y Ras Broga ac hefyd i Beca Jenkins bl.6 a ddaeth yn 3ydd yn y Ras Rhydd.

**Gwyddbwyll**
Llongyfarchiadau i Jonathan Davies a Rhys Matthews ar eu llwyddiant yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Gwyddbwyll De Cymru a De Lloegr. Roedd y ddau yn cynrychioli Morgannwg ac mae'r ddau wedi cael eu cynnwys hefyd yn Nhîm Gwyddbwyll dan 12 Cymru.

**Gymnasteg**
Llongyfarchiadau i'n timoedd gymnasteg. Fe ddaeth y grŵp gymnasteg, y triawd ac Owain Griffiths (unigol) yn gyntaf yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Sirol yr Urdd. Dymunwn yn dda iddynt nawr yn y genedlaethol yn Aberystwyth.

**Pêl-droed**
Da iawn am ymdrech ein bechgyn yn ffeinal pêl-droed 'New Directions' Caerdydd. Fe ddaethon yn agos iawn i'r brig.



Tîm Gymnasteg y Wern ac Owain Griffiths

## ADDYSG GYMRAEG – NEWYDDION GWELL

Targed RhAG yw perswadio'r sir i gynllunio nawr ar gyfer agor 6 ffrwd newydd naill ai mewn ysgolion sy'n bodoli neu rai newydd rhwng nawr a Medi 2020, ar gyfer yr ardaloedd canlynol –

**A. Ardaloedd datblygu newydd**

1. Plasdwr (fel arall Rhydlafar)
2. Llandaf, lle mae Pencae yn barod yn methu derbyn yr holl geisiadau a lle bydd tai newydd yn dod ar safleoedd adeiladau'r BBC
3. Yr ardal a elwir Bwlch Llysfaen/Pontprennau.

**B. Ardaloedd lle mae'r ysgolion yn llawn**

4. Nant Caerau lle mae'r Ysgol wedi methu derbyn 10 -15 disgybl ers 5 mlynedd
5 Trowbridge/Llaneirwg Newydd, ardal lle mae'r datblygu wedi digwydd ers peth amser heb Ysgol Gymraeg yno
6 Ardal y gogledd-canol (talgylchoedd Melin Gruffydd, Y Wern a Mynydd Bychan) lle methodd 66 gael lle y llynedd er bod 6 ffrwd ar gael.

Gellid disgwyl y bydd arian "adran 106" ar gael i dalu am ysgolion (neu ffrydiau newydd) Plasdwr, Llandaf a Bwlch Llysfaen/Pontprennau, ardaloedd lle mae'r datblygu heb ddigwydd eto. Mae adran 106 yn rhan o ddeddf sy'n gosod cyfrifoldeb ariannu ysgolion i wasanaethu ardaloedd newydd ar ysgwyddau'r datblygwyr sydd wrth gwrs yn adlewyrchu'r gost ym mhris y tai newydd.

Y ffynhonnell arall o arian i godi neu adnewyddu ysgolion yw Cynllun Ysgolion y 21ain ganrif sy'n digwydd mewn sawl band, ar hyn o bryd yr ail. Disgwylir i awdurdodau lleol osod cynigion gerbron Llywodraeth Cymru sy'n dyfarnu pa rhai sy'n llwyddiannus. Fis Rhagfyr dewiswyd dau gynnig o fudd i addysg gynradd Gymraeg sef helaethu Ysgolion Nant Caerau a Pen-y-pil i dderbyn 2 ffrwd yr un cyn 2024. Nid oes manylion ar gael sut na phryd y gweithredir y penderfyniad. Yn sicr nid oes modd ehangu Nant Caerau ar ei safle bresennol a byddai ehangu Pen-y-pil ar ei safle yn golygu aberthu darn helaeth o'i meysydd chwarae. Ond o leiaf mae sicrwydd bod RhAG wedi llwyddo i sicrhau 2 faes o'r 6 nod.

Mae'r sir wedi addo edrych ar beth sy'n bosibl i ddelio â phroblemau'r ysgolion o dan bennawd 6 sy'n golygu edrych ar ddefnydd gwell o'r adnoddau presennol yn hytrach na chodi adeiladau newydd. Mae rhieni wedi gwrthod cymryd lleoedd oedd ar gael yn Ysgolion Glan Ceubal a Phenygroes, ond hefyd mae ysgolion Saesneg yn yr ardal sy'n bell o fod yn llawn.


*Michael Jones*



## ADOLYGU MATHEMATEG TGAU a SAFON UWCH

**Cynhelir cyrsiau adolygu dwys un i un yn ystod gwyliau'r Pasg eleni [Mawrth 30 hyd Ebrill 14] ar gyfer arholiadau Mathemateg safon TGAU neu Uwch.**

**Manylion oddi wrth Gwilym Wyn [07 968 463 737] {*tiwtor profiadol a llwyddiannus iawn gyda dros 30 mlynedd o brofiad*}. Penylan.**

**Rhif: 179**



### Ar Draws

7. Arwyddocâd dechrau Ysgol Sul teuluol yn Rwsia (5)
8. Hyfforddi aderyn aur yn Ffrainc ar ddechrau Ionawr (7)
9. Bu ysgol erioed mor eithafol? (7)
10. Troi y derw yn bicell (5)
12 A gyfansoddwyd cerddi y farn yn y lle hwn? (10)
15. Adfydus bod tes i'n brechu mor wael (10)
18. Nid chwith i Alun bach gael rhywbeth i'w droi (5)
19. Crybwyll sŵn poen nerth pedol (7)
21. Nid yw hwn yn goddef gwres (3,4)
22. Ychwanegu at ddechrau amser tawel offeiriad da iawn (5)

### I Lawr

1. 'Rwy'n dechrau simsanu braidd, ac meddaf i chwi,
   Mae ----- ----- fel petai'n dod drosof i' (THP-W) (3,7)
2. Cadarnhau cantre'r grug ar yn ail (5)
3. Copa ar ben iâr (4)
4. Mae'r un clyfar yn yr ysgol orau (6)
5. Cymharu ceffyl gwyllt ar ganol rhybudd (8)
6. Tueddi at gyduno dau fath o aderyn ganol nos (7)
11. 'Rhowch wedd wen ----- ----- -----
    Rhowch dynerwch dan eira' (RWP) (3,5,2)
13. 'O Iesu mawr, rho d'anian bur
    I eiddil gwan mewn ----- -----'(DC) (5,3)
14. Mae tynfa i't wneud cynnydd (7)
16. Hwyrach doedd y wraig gyntaf ddim mor fawr (6)
17. Amser o'r flwyddyn mewn llety morol (5)
20. 'Eithr efe a'i dibrisiodd ei hun gan gymryd arno agwedd -----' (Philipiaid) (4)

**Enillydd Croesair Rhif 177**
**Alun Guy, Rhiwbeina**

**Atebion Croesair Rhif 177**
**Ar Draws** 1. Yn feichiog 8. Taro 9. Gwrthnysig 11. Gwroli 12. Heblaw 13. Yn llechian 15. Gryf drwy 20. Dialydd 21. Ymaros 23. Gwreiddiol 24. Arall 25. Na ddidolir
**I Lawr** 2. Niwlen 3. Erthylu 4. Chwyddwydr 5. Orig 6. Daioni 7. Cofion 10. Gwae 14.Llwydrewi 15. Gwylan 16. Ymatal 17. Diog 18. Pardduo 19. Cymodi 22. Swta

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mawrth 2018
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

# Ysgol Glantaf

**Cariad at Iaith**

Cafwyd diwrnod da o ddathlu ar Ddydd Santes Dwynwen eleni. Penderfynodd Pwyllgor BYG yr ysgol i gynnal dathliad a oedd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddangos eu cariad a'u hangerdd tuag at yr iaith Gymraeg. Cafodd yr ysgol ei thrawsnewid i faes Eisteddfod am y dydd. Roedd hyn yn gyfle gwych i ddisgyblion grwydro'r maes a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau megis twmpath dawns, gwersi swmba, creu cwpledi cariadus, llunio crys-t, mynychu gig Maes B, mynd i'r sinemaes a chreu moctêls. Roedd y neuadd chwaraeon yn fwrlwm o wahanol gampau a hynny o dan arweiniad yr Urdd. Casglwyd £500 ar y dydd a fydd yn mynd at apêl Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018.

**Pencampwriaethau Gymnasteg Cymru**

Llongyfarchiadau i'n merched ar ddod yn ail ym Mhencampwriaethau llawr a llofnaid Gymnasteg Cymru!!

**Newyddion gwych am Manon Johnes blwyddyn 12**

Mae Manon wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru yng ngharfan 7 bob ochr rygbi Cymru yn Awstralia dros yr wythnosau nesaf. Profiad haeddiannol iawn i ddisgybl mor weithgar. Pob lwc, Manon!

**Cystadleuaeth Fadminton**

Llongyfarchiadau i'n bechgyn ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth fadminton Caerdydd yn ddiweddar. Cipiodd bechgyn blwyddyn 7 ac 8 y wobr gyntaf tra bod bechgyn blwyddyn 9 wedi cyrraedd y trydydd safle. Da iawn wir!



**Tafodiaith yw un o drysorau mwyaf yr iaith Gymraeg a mae angen ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

Ond beth allwn ni wneud i sicrhau dyfodol i dafodieithoedd Cymraeg yng Nghymru?

Mae twf addysg Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn arbennig, a thwf addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn syfrdanol. Un ysgol gynradd Gymraeg yn unig oedd yn y brifddinas yn yr 1960au ac ni fyddai neb wedi breuddwydio y byddai cymaint ag un ar hugain o ysgolion cynradd Cymraeg yma erbyn heddiw.

Ond tra bod addysg Gymraeg yn tyfu a'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn cynyddu, credaf bod angen sicrhau bod tafodieithoedd gwahanol ardaloedd Cymru yn cael eu gwarchod a'u trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Credaf bod modd cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg a sicrhau dyfodol i dafodieithoedd drwy ddysgu tafodieithoedd yr ardaloedd lleol fel rhan hanfodol o ddysgu'r Gymraeg. A yw'n rhesymol i awgrymu y dylai'r cyfryngau yng Nghymru a datblygwyr y cwricwlwm cenedlaethol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau parhad tafodieithoedd? Rwy'n meddwl bod dysgu am dafodiaith yn cyfoethogi ein diwylliant a'n hunaniaeth ni fel siaradwyr yr iaith.

Fel unigolyn sy'n siarad iaith gyda dylanwad amlwg o Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, hoffwn weld ysgolion cynradd y gwahanol ardaloedd yn dysgu'r dafodiaith lafar sy'n berthnasol i'r ardal, gan obeithio y byddai pobol yn cael eu hannog i siarad yr iaith â'i gilydd drwy ddefnyddio'r dafodiaith. Fel hyn caiff y dafodiaith ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Fel y gwyddom, mae Cymraeg llafar yn aml yn wahanol i'r ffurf ysgrifenedig cyffredinol. Er mwyn atal problemau ieithyddol rhag datblygu yn sgîl hyn, rwy'n meddwl y dylid dysgu tafodiaith yr ardal ar lafar yn unig ac na ddylid dysgu disgyblion i ysgrifennu mewn tafodiaith. Byddai dysgu'r ffordd y caiff geiriau eu dweud yn yr ardal lle maent yn byw yn dysgu'r disgyblion am eu hunaniaeth fel siaradwyr yr iaith ac fel trigolion yr ardal.

Rwy'n awgrymu na ddylai disgyblion fod yn cael eu hasesu ar eu defnydd o dafodiaith gan mai rhywbeth naturiol ar lafar yw e yn unig. Byddai'r diwylliant hwn o warchod tafodiaith yr ardal yn annog disgyblion i siarad Cymraeg yn naturiol gyda'i gilydd yn y pendraw. Roeddwn i wedi cynnal trafodaeth yn ddiweddar ar y grŵp Facebook, Iaith, a chafwyd nifer o safbwyntiau gwahanol a chalonogol wrth gyfranogwyr ar y wefan. Roedden nhw wedi gwneud i mi feddwl yn ofalus bod angen gwneud mwy na dysgu'r ffurf gyffredinol o'r iaith Gymraeg yn unig gan nad oes angen mynd ar y trywydd o academeiddio'r iaith Gymraeg, hynny yw, creu fersiwn perffaith o'r iaith Gymraeg. Dywedodd un unigolyn: "Mae angen dysgu mwy am dafodiaith er mwyn gwneud yr iaith yn ddigon naturiol i'w siarad". Dywedodd un arall, yn achos yr Wenhwyseg, bod angen derbyn bod yr iaith Gymraeg yn esblygu ac i edrych i'r dyfodol ar y dafodiaith newydd sy'n datblygu ymhlith pobl ifanc yn y De Ddwyrain. Dywed un arall mai canlyniad y ffaith bod yna ormod o eiriau Saesneg a chystrawennau Saesneg sy'n achosi i ddisgyblion siarad yr iaith yn wahanol, sydd yn y pendraw yn difetha naturioldeb yr iaith. Mae'n iawn ac yn gywir i ddefnyddio tafodiaith er ei fod yn wahanol i ffurf gyffredinol yr iaith. Ond ni ddylid ystyried cystrawennau a geiriau Saesneg fel rhyw ffurf amgen (alternative) i dafodiath draddodiadol Gymraeg. Credaf y byddai clywed tafodieithoedd yn helpu disgyblion i ddeall yr iaith yn well ac na fyddai yn eu drysu nhw o gwbl.

Ymatebodd un arall y buasai'n syniad da fel ffordd o sicrhau swyddi i bobl leol. Ond mynegwyd pryder am y goblygiadau o orfodi athrawon a disgyblion i siarad mewn tafodiaith sy'n wahanol i'r math o Gymraeg a siaredid yn y cartref. Yr ateb syml i hyn yw bod yr athro Cymraeg yn dysgu tafodiaith yr ardal yn y gwersi a'i fod yn siarad ei dafodiaith ei hun hefyd. Mewn ardal fel Caerdydd, lle ceir siaradwyr Cymraeg o bob rhan o Gymru, byddai'n anodd penderfynu ar ba dafodiaith i ddysgu yn yr ysgol achos bod gan bawb dafodiaith wahanol i'w gilydd. Mewn lleoedd megis Caernarfon ac Aberteifi, dylai tafodiaith yr ardal gael ei dysgu yn yr ysgol. Felly sut mae gweithredu polisi mewn un rhan o Gymru sy'n wahanol yn y rhan arall? Oes angen ail-ddeffro'r hen Gymraeg traddodiadol a arferai fod yng Nghaerdydd?

Dyna felly y rheswm pam rwy'n awgrym mai ar lafar yn unig mae angen dysgu tafodiaith. Ond dylai bod yna bolisi iaith yn cael ei weithredu i'w gwneud hi'n hanfodol ar lefel yr ysgol a'r ardal i ddysgu tafodiaith yr ardal wrth ddysgu Cymraeg a hynny gyda chefnogaeth y cyfryngau. Rwy'n meddwl y gallai'r cyfryngau gyfrannu at ddatblygiad yr adnoddau hyn wrth greu casgliad o eirfa Cymraeg tafodieithol pob ardal o Gymru, os yn bosib, ac wedyn cyflwyno'r eirfa i'r ysgolion o fewn y ardaloedd hynny.

Gellir dadlau bod disgyblion ysgolion Cymraeg yn dysgu am dafodiaith yn barod wrth ddarllen nofelau a darnau ysgrifenedig lle gwelir tafodiaith draddodiadol yr awdur yn ysgrifenedig o fewn deialog. Ond nid yw hyn yn golygu bod disgyblion yn cael eu dysgu i siarad mewn tafodiaith.

Felly rwy'n dod at y casgliad bod angen galw ar y llywodraeth i ddatblygu cwricwlwm Cymraeg newydd sy'n cynnwys dysgu tafodiaith Gymraeg ar lafar yn unig, yn ychwanegol at ddysgu ffurf gyffredinol yr iaith Gymraeg fel rhan hanfodol o geisio cynyddu y nifer o siaradwyr Cymraeg i un filiwn. O ganlyniad, bydd yr iaith yn fwy byw, diddorol a naturiol. "Os bydd tafodieithoedd yn marw, ni fydd yr iaith Gymraeg yn bell ar eu hôl", dywedodd Kate Roberts. Os yw'r iaith Gymraeg i barhau, rhaid cael parhad i dafodieithoedd llafar yn ogystal.

*Aled Thomas*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun, 15 Ionawr 2018, cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Cari Powell, myfyriwr ymchwil ym maes mater tywyll yn Adran Ffiseg Prifysgol Abertawe. Dyma'r stwff rhyfedd sydd yn gyfrifol am tua chwarter más y bydysawd - ond dydyn ni ddim yn gwybod beth yw e! Ond cyn mentro i'r gofod pell clywsom fod Cari'n dod o Flaendulais, wedi gwneud ei gradd gyntaf mewn Astroffiseg yn Aberystwyth a gradd meistr ar chwyddiant cosmolegol yn Abertawe. Bellach mae'n astudio ar gyfer gradd doethuriaeth mewn mater tywyll. Bu'n brysur yn siarad ar hyd a lled Cymru ar y testun yma gan gynnwys yn ei hen ysgol yn Ystalyfera ac ar y rhaglen 'Prynhawn Da' ar S4C.

Y cwestiwn mawr yw: 'Beth yw mater tywyll?' ac ar hyn o bryd yr ateb yw 'Does neb yn gwybod!' ond mae tystiolaeth gref fod rhywbeth anweledig yn tynnu ar bethau y gallwn eu gweld trwy rym disgyrchiant. Mae nifer o enwau mawr y byd seryddol wedi amau bod yna fydysawd cudd, ond disgrifir Fritz Zwicky o'r Swistir fel tad mater tywyll. Yn 1933 mesurodd fás nifer o alaethau mewn clwstwr yn y patrwm sêr 'Coma' yn ôl eu symudiadau a gwelodd bod eu cyfanswm yn gannoedd o weithiau yn fwy na'r hyn y gallodd ei weld. Ac yn fuan wedi hynny, daeth nifer o achosion eraill i'r golwg lle roedd yn rhaid bod rhyw gyrff cudd yn cadw galaethau a chlysterau o alaethau at ei gilydd. Dyfeisiwyd nifer o ddamcaniaethau i esbonio y ffenomenon rhyfedd yma, gan ddechrau gyda gwrthrychau mawr fel tyllau duon, sêr niwtron, planedau mawr neu sêr bychain. Ond er chwilio, ni ddaeth digon ohonynt i'r golwg. Bu rhaid dyfeisio gronynnau egsotig, tua maint y protonau sydd yng nghanol atomau, sydd yn effeithio yn wan iawn ar fater cyffredin. Ond parhau mae'r chwilio am y gronynnau yma hefyd.

Yn olaf soniodd Cari am y gronynnau llai fyth, o'r enw Acsionau, a dyma faes ei hymchwil ddamcaniaethol hi. Ac mae nifer o arbrofion wrthi ar hyn o bryd yn chwilio am y rhain, ac mae Cari yn gweithio ar y mathemateg a all arwain at ffyrdd eraill o ddarganfod yr ateb i'r gyfrinach gosmig hon.

Gellir cael mwy o fanylion ar y maes yma mewn erthygl a ysgrifennodd Cari i gylchgrawn diddorol dwyieithog ar-lein o'r enw parallel.cymru. Ewch i parallel.cymru ar y we.

*Rhys Morris*

---

# SIOP SIARAD I DDYSGWYR

Pob bore Gwener am 9.45 mae grŵp o ddysgwyr brwd yn cwrdd yn Oriel Canfas, Treganna i siarad Cymraeg a chael hwyl. Syniad yr arlunydd, Alun Hemming ydy'r Siop Siarad. Mae Alun yn un o saith arlunydd sy'n gweithio yn yr oriel. Mae un ohonynt, Anthony Evans yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

Mae'r dysgwyr yn y Siop Siarad angen cymorth i drosglwyddo iaith y dosbarth i'r gymuned. Maen nhw eisiau ennill hyder. Mae'r dysgwyr yn siarad mewn parau weithiau ac yn adrodd yn ôl i'r grŵp. Dyn ni'n cael cwis nawr ac yn y man ac weithiau dyn ni'n gwneud tipyn bach o ramadeg. Mae'r dysgwyr yn gallu dewis. Weithiau, mae siaradwr yn dod i siarad â'r grŵp ac mae'r dysgwyr yn gofyn cwestiynau iddyn nhw. Er enghraifft mae Jo Knell wedi siarad am ei siop, Cant a Mil, a'i phrofiadau wrth ddysgu'r iaith.

"Mae Siop Siarad yn rhoi hyder i fi siarad â phobl," meddai Janet Jones o Thornhill.

"Dyn ni'n chwerthin am brofiadau ein gilydd," meddai Mave Humphries o Landaf.

"Fel dysgwr a oedd yn byw am ddeugain mlynedd ddi-Gymraeg yn Lloegr dysgais lawer yn Y Siop Siarad trwy'r siarad anffurfiol yn ogystal â'r gwersi gramadeg. Yn awr rwy'n ddigon hyderus i ymuno â Merched y Wawr a Chymdeithas Gymraeg Rhiwbeina heb sôn am gael fy ail-gyflwyno i lenyddiaeth," meddai Isobel Carter o Birchgrove.



Sarah Lart, Grace Hunt a Mary Pearce

Dyn ni'n croesawu pobl newydd. Y gost ydy £5 am sesiwn 2 awr. Cysylltwch â'r arweinydd, Lynda Pritchard Newcombe trwy e-bost: Narnians@hotmail.co.uk neu trwy ffonio 07800503479 neu trwy weplyfr: www.facebook.com/SiopSiaradTreganna

*Mae Lynda wedi ysgrifennu llyfrau i helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth, Speak Welsh outside Class: You can do it! cyhoeddwyd gan y Lolfa and Think without Limits: You CAN speak Welsh! cyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch.*

*Lynda Newcombe*

# Gwylio'r Geiniog



*"Dyma rai syniadau am detox ariannol ar gychwyn y flwyddyn."*

**Huw Roberts**

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd. Bydd y rhan fwyaf ohonom wedi gwneud ein haddunedau am y flwyddyn, a bydd llawer wedi cael eu torri erbyn hyn mae'n siwr. Dyma rai syniadau am wneud Detox ariannol ar gychwyn y flwyddyn.

Awgrymaf bod pawb yn gwneud crynodeb o'u buddsoddiadau, gan gynnwys cyfrifon pensiynau i'r rhai sydd heb ymddeol. Efallai byddwch yn darganfod rhai buddsoddiadau neu bensiynau yr oeddech wedi anghofio amdanynt.

Wedi gwneud y rhestr, sawl buddsoddiad sydd gennych? Fel rheol bys bawd, os oes gennych fwy na deg buddsoddiad gwahanol mae angen cyfyngu rhain i nifer sydd yn haws i'w rheoli.

Gyda graddfeydd llog wedi codi, mae sawl cyfrif yn cynnig 1.2% - 1.5% ar arian yn y banc ac fe ddylech symud eich arian os yw'n derbyn llog isel iawn ar hen gyfrifon.

Os oes gennych forgais, pa raddfa llog ydych yn talu? Yn fras gallwch gael morgais @ tua 2% dros 2 flynedd. Ble mae angen ail forgais, ewch am gyfrif lle nad ydych yn talu unrhyw fath o ffi am drefnu'r morgais, oherwydd mae'r ffioedd hyn yn aml yn gostus iawn.

Dadansoddwch eich datganiadau banc (ac mae'n syndod faint o bobol sydd ddim yn gwneud hyn!) a gwnewch restr o'ch taliadau misol. Lle nad oes angen gwneud rhai o'r taliadau misol gallwch arbed arian am weddill y flwyddyn.

Gwnewch ewyllys os nad oes un gennych, neu os ydych wedi gwneud ewyllys, edrychwch ar y cymalau i sicrhau bod y rhain yn unol â'ch dymuniadau presennol. Ar yr un pryd, ystyriwch eich sefyllfa ynglŷn â Threth Etifeddiaeth, gyda rheolau newydd am gartrefi wedi codi y swm gellir gadael yn ddi-dreth lle mae'r eiddo yn mynd yn syth i'r plant a'r wyrion.

*Mae Huw yn gyfrifydd hunan gyflogedig yn cynnig gwasanaeth ar dreth incwm, ewyllysiau a gwaith probate. Cysylltwch ar 029 2069 4524 neu huwrobertsaccountant@googlemail.com os ydych eisiau trafod unrhyw fater.*

---

## Marw Cymro ymroddgar yn yr Amerig

Trist oedd gweld cyhoeddiad yn ddiweddar am farw Gareth Llewelyn Howell yn Washington UDA yn 75 mlwydd oed. Mab y diweddar Lyn a Nan Howell o Riwbeina – teulu a wnaeth gyfraniad arbennig i Gapel Heol y Crwys dros gyfnod hir.

Ar ôl graddio yn y gyfraith yn Aberystwyth bu Gareth yn Ynad Heddwch yng Nghymru ac fe ddrafftiodd gynigion cynnar ar gyfer y datblygiadau cyfansoddiadol ddaeth yn ddeddf yn 1999. Yna bu'n arwain y ffordd gyda gwahanol fudiadau fel Banc y Byd, Sefydliad Cydwladol y Gweithwyr a'r Cenhedloedd Unedig i greu gwell amodau i bobl mewn gwir angen yn sgîl tlodi neu ryfel ar hyd a lled y byd. Cafodd y gwaith ei gydnabod pan urddwyd e'n Gymrawd er Anrhydedd yn ei hen Brifysgol yn Aber yr haf diwethaf.

Roedd bob amser yn weithgar iawn yn ei gymuned leol ble bynnag y byddai'n byw, yn enwedig yn ei eglwys ac yn y bywyd Cymraeg – fe oedd Llywydd Cymdeithas Gymraeg Washington.

Cydymdeimlwn yn fawr â'i wraig, Amy, a'i ddau fab, Llewelyn a Rhys.



*Aelodau o Ddosbarth Pobl Ifanc Ysgol Sul y Crwys yn y 1960au dan arweiniad y diweddar Lyn Howell. Lyn a Nan Howell sydd yng nghanol y rhes flaen; y Parch. Lodwic Jones ar y dde a Gareth ar y pen ar y chwith.*

# CERDYN POST O EFROG NEWYDD

## Lowri Haf Cooke yn holi Catrin Brace



*Mae Catrin Brace yn Gyn-Bennaeth Marchnata Gogledd America dros Lywodraeth Cymru. Mae hi'n byw rhwng Caerdydd ac Efrog Newydd ar hyn o bryd.*

**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**

Rwy'n wreiddiol o Fro Morgannwg – fe symudon ni i Southerndown pan ro'n i'n 11 mlwydd oed. Beth oedd yn braf am dyfu i fyny yn Southerndown oedd cael byw mor agos i'r traeth. Does dim llawer o lanw ar draethau Efrog Newydd a New Jersey, ond ar ein traeth ni roedd y llanw a thrai yn newid drwy'r amser – yn mynd allan yn bell ac wedyn yn dod reit i fewn. Roedd y traeth hefyd yn newid o dymor i dymor; mae traeth yr haf yn hollol wahanol i draeth y gaeaf.

**Pryd a sut lanioch chi yn Efrog Newydd a beth fuoch chi'n ei wneud yno?**

Y tro cyntaf i mi fynd i Efrog Newydd, yn yr Wythdegau, roedd gen i swydd fel Rheolwr Datblygu mewn cwmni masnachol yn y byd twristiaeth. Yr ail dro, cyrraeddais ychydig o ddiwrnodau cyn Medi'r 11eg, 2001 ac, ar ôl cyfnod personol stormus, ges i swydd gyda Llywodraeth Cymru. Fy ngwaith oedd codi proffil Cymru yng Ngogledd America ym myd busnes, twristiaeth, y celfyddydau a Phrifysgolion, gan hyrwyddo digwyddiadau mawrion fel Gŵyl Fwyd Cymru yn y Cenhedloedd Unedig, *Wales on Wall Street* a *Wales Week USA*.

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Efrog Newydd...**

Dal y trên i Brooklyn. Gwylio Cymru yn chwarae gêm rygbi rhyngwladol ym mwyty Cymreig *Sunken Hundred* (Cantre'r Gwaelod) ar Smith Street tra'n mwynhau selsig Morgannwg a gwydraid da o win. Yn ôl i Manhattan i weld ffilm yn y sinema Kips Bay yn agos i Murray Hill - rwy'n dwlu mynd i weld *matinee*, a dod allan yn yr haul wedi'r ffilm. Cerdded ar hyd yr 'East River' yn ôl i 'Curry Hill' - ardal enwog am fwytai Indiaidd, nid nepell o adeilad yr Empire State. Cyri llysieuol poeth ym mwyty Dhaba ac wedyn am adref.

**Pa 3 lle yn Efrog Newydd y byddech chi'n annog i unrhywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas fawr?**

Yn gyntaf, Ellis Island. Mae hanes mewnfudwyr i'r Unol Daleithiau (fel fi) yn hynod o ddiddorol. Hefyd, cerdded hen linell trên yr 'Highline', sydd bellach yn lwybr a gardd awyr-agored yn ardal Chelsea yn Ne-Orllewin Manhattan. Cŵl iawn ac iachus dros ben! Yn ola, ymlwybrwch ar hyd taith gerdded Dylan Thomas o gwmpas Greenwich Village. Dyfeisiais i'r daith gyda chymorth Aeronwy Thomas a Peter Thabit Jones ac mae nawr ar gael ar ap.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yn Efrog Newydd, ac ymhle?**

Noson i ddathlu bod yn ddinesydd newydd yr Unol Daleithiau. Bwyty Battery Gardens yn Harbwr Efrog Newydd, Awst 5ed 2011. Bwyd a diod da a golygfa anhygoel yng nghwmni fy hoff ffrindiau.

**Ble mae'r olygfa orau yn Efrog Newydd?**

Yr olygfa o Manhattan yn edrych dros yr afon Hudson o Jersey City, New Jersey. Does dim un olygfa arall gystal â honno yn fy marn i.

**Beth fyddwch chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd a Chymru?**

Ar hyn o bryd rwy'n byw yn weddol agos i Gaerdydd, wedi dod yn ôl dros dro i ofalu am fy rhieni - mae gen i gartref ar bwys caeau Pontcanna yng Nghaerdydd ers diwedd y saithdegau, cornel orau Caerdydd yn fy nhyb i! Pan ydw i yn Efrog Newydd, dwi'n gweld eisiau cymdogion cyfeillgar Pontcanna, synnwyr hiwmor y Cymry a cherdded Bannau Brycheiniog a Llwybr Arfordir Cymru.



# Merched y Wawr Caerdydd

Gyda'i fysedd chwim a'i lygaid praff, bu Anthony Evans, yr arlunydd enwog, yn llunio o gardfwrdd un o frenhinoedd y dwyrain, yng nghyfarfod 13 Rhagfyr. Wyddem ni ddim ai Caspar, Baltasar ynte Melchior fyddai'n ymddangos wedi i Anthony saernïo'n gelfydd gorff a breichiau, gwallt a barf gyrliog, ynghyd â thrwyn, clogyn a dwylo. Ar ben y brenin, gosodwyd coron a ymddangosodd rywsut trwy gyfrwng dewiniaeth arallfydol y crefftwr. Mynnai y gallem oll greu un tebyg ond byddai angen peth o hud a lledrith Anthony arnom i lwyddo. Gydag e i roi cymorth yr oedd ei ferch Medi.


Anthony a Medi

Yn dilyn creu'r sêr-ddewin dwyreiniol, rhannodd Medi ei syniadau cyffrous hi ar sut i lapio anrhegion Nadolig. Defnyddiai bapur brown plaen, gan addurno hwnnw wedyn â phethau fel dail llawryf wedi'u pwytho ag edau goch neu bluen eira bert wedi'i thorri o bapur lliwgar. Cafwyd cyngor sut i lofnodi enw mewn modd deniadol ac ymhle i siopa bargeinion fyddai'n help i greu anrhegion unigryw. Roedd yn werth gweld ei chynnyrch hardd.


Gwyn a Rhiannon

Gwisg unigryw Gwyn Griffiths dynnodd sylw pan ymwelodd â'r gangen ar 9 Ionawr. Pam oedd sgarff lasliw am wddf un fyddai'n sôn am **Sioni Winwns,** a 'run lliw disglair yn leinin o fewn i'r got laes ddu? A beth oedd arwyddocâd y botymau cochion ar hyd-ddi a'r brodwaith coch trawiadol ar y ddwy lawes? Ond ar y beret du, wele winwnsyn coch! Dyma wisg Cymrawd o *Confrérie* winwns Bro Rosko, Llydaw, a ddyfarnwyd y llynedd yn *Confrérie Gastronomique* orau Ewrop, ac mae Gwyn yn aelod anrhydeddus. Dynion a merched oedd y Sionis a fentrai eu bywydau ar longau hwylio i Brydain i werthu eu cynnyrch. Doedd eu winwns ddim at flas y *Parisiens*. Treulient fisoedd yn crwydro Cymru, Lloegr a'r Alban. Enillodd y rhain eu lle yn ein mysg ni a chael eu derbyn a'u croesawu fel Cymry Cymraeg! Yn wir, cafwyd hanes am un ferch ifanc a fyddai'n cyrraedd Llanelli gyda'i rhieni bob blwyddyn a allai ganu *Hen Fenyw Fach Cydweli*.

Mae'r winwns blasus yn goch am fod gwymon y môr yn gwrteithio'r tir. Ym 1828 y dechreuwyd croesi'r dŵr a bu'n farchnad lwyddiannus am dros ganrif. Deuai 15,000 yn y flwyddyn 1931. Yn Lloegr, roedd Winston Churchill yn gwsmer ffyddlon. Wedi'r ail ryfel byd pan waharddodd Lloegr bob mewnforio o'r fath, aeth cynrychiolaeth i Dŷ'r Cyffredin i apelio. "Wrth gwrs y cewch CHI ddod", oedd ateb yr aelodau seneddol a oedd yn hen gyfarwydd â'r Sioni! Ychydig iawn sy'n dod bellach ond gadawodd y farchnad argraff ddofn nid yn unig arnon ni Gymry ond ar y Ffrancwyr hefyd. Rhaid chwerthin wrth glywed am frodorion de Ffrainc yn holi Gwyn fel hyn: *Pam ry chi bob amser yn ein darlunio ni fel rhai ar gefn beic yn cario llinyn o winwns a gwisgo beret?*

Llongyfarchiadau i Shan Morgan ar enedigaeth ei hŵyr. Croesawyd Penny a oedd ar ymweliad â'r ddinas o Drefdraeth, a Joy o Barc y Rhath, a ddaeth i'w chyfarfod cyntaf.

---

## Cymru Ryfedd a Chyfareddol: Murlun y Tŵr Dŵr

I ddathlu Blwyddyn Chwedlau 2017, mae murlun 50 troedfedd o uchder wedi ei osod ar y Tŵr Dŵr eiconig y tu allan i Orsaf Rheilffordd Caerdydd Ganolog. Mae'r murlun syfrdanol hwn wedi ei ddadorchuddio gan Llenyddiaeth Cymru, mewn partneriaeth â Cadw, i nodi penllanw taith 'Cymru Ryfedd a Chyfareddol', sy'n dwyn rhai o'r hanesion hudolus a rhyfedd sydd wedi eu cofnodi ar wefan Gwlad y Chwedlau (www.gwladychwedlau.cymru) ynghyd.

Darluniwyd y murlun gan yr artist Pete Fowler. Yn yr Hydref, aeth e a 30 o awduron blaenllaw megis **Patrick Jones**, **Emily Blewitt** ac **Aneirin Karadog** ar daith i ddarganfod rhai o straeon rhyfeddaf Cymru gyda chymorth **Yr Athro Sioned Davies**, sy'n arbenigwr ar Y Mabinogion. Gan ymweld â chwe lleoliad, bu Pete a'r awduron gwâdd yn gweithio ag aelodau o'r gymuned ar safleoedd Cadw i greu gweithiau celf newydd wedi eu seilio ar chwedlau lleol arbennig. Bydd y murlun lliwgar yn arddangos creadigrwydd cyfoes Cymru drwy gydol 2018 a 2019 wrth i Gaerdydd groesawu llif o ymwelwyr o bob cwr o'r byd.



# Y DIGWYDDIADUR

## Chwefror

**Sadwrn, 10 Chwefror**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer y rheini sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg. Am 11.00am bydd sgwrs gan Huw Pritchard ar y testun 'Dysgu Plant'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4DX. Croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**Mawrth, 13 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Dr David Jenkins yn siarad am Capten Daniel Jenkins, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 15 Chwefror**
Sioe farddoniaeth Karen Owen, '7LLAIS', yng Nghanolfan Chapter am 8.00pm.

**Iau, 15 Chwefror**
Rifiw Blynyddol y Dwrlyn yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 7.30pm. Golwg ar 2017 drwy sgets a chân. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 16 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Ddr D. Ben Rees ar y testun, 'Cofio Gwilym Prys Davies', yn Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 17 Chwefror**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.

**Llun, 19 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Caryl Roese am yr arlunydd, Josef Herman, capel Bethel, Maesyderi, am 7.30pm.

**Llun, 19 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Dr Heledd Iago (Prifysgol Abertawe) ar y testun 'Proteinau: Delfryd Delweddau Rhyngweithol', Ystafell 0.77 Prif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 20 Chwefror**
Pwyllgor Apêl Rhiwbeina a Llanisien, Eisteddfod Caerdydd 2018. Taith bws i i Lundain a chyfle i ymweld â Thŷ'r Cyffredin. Bydd y bws yn gadael tafarn y Deri, Rhiwbina, am 6.00 am ac yn gadael Llundain am 5.00pm. Tocynnau: £25 oddi wrth Siwan Hill ar 07791-970710 neu siwan.hill@btinternet.com

**Mercher, 21 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Luned Aaron ar y testun 'Fy Myd Llyfrau', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 28 Chwefror**
Sgwrs gan yr Athro E. Wyn James ar gerddi Gwenallt i Gymru a Dewi Sant, yng nghymdeithas y Gorlan, Capel y Crwys, Heol Richmond, am 2.15pm.

## Mawrth

**Gwener, 2 Mawrth**
Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd Cylch Caerdydd yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 3 Mawrth**
Pwyllgor Apêl Rhiwbeina a Llanisien, Eisteddfod Caerdydd 2018. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, Rhiwbeina, rhwng 10.30 a 12.00. Rhagor o fanylion drwy ebostio:
apel_rhall@outlook.com

**Llun, 5 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu Gŵyl Ddewi yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd yng nghwmni'r Prifardd Aled Gwyn, am 7.30pm.

**Llun, 5 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn Jolyons, 10 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Catrin Dafydd, a fydd yn siarad ar y pwnc, 'Beth yw'r Stori?' Os am ddod, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Peter Gillard pagillard@yahoo.co.uk neu 07859-007406.

**Mercher, 7 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Dathlu Gŵyl Dewi Sant. Cinio yng nghwmni Huw Llewelyn Davies, yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.

**Mercher, 7 Mawrth**
Merched y Wawr, Bro Radur. Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni disgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr. Cawn hanes taith tri o'r disgyblion i Batagonia ac eitemau amrywiol. Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn. Cynhelir y cyfarfod yn neuadd Capel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 9 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan y Gwir Barchedig Ddr Barry Morgan ar y testun, 'Dau Artist Mawr Eu Canrif: Kyffin Williams ac R. S. Thomas', yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: 029-2056-2880.

**Sadwrn, 10 Mawrth**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer y rheini sy'n awyddus i ymarfer eu Cymraeg. Am 11.00am bydd sgwrs gan Nia Brown ar y testun 'Gemau Bwrdd'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4DX. Croeso cynnes i ddysgwyr a siaradwyr rhugl.

**Mawrth, 13 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Dathlu Gŵyl Ddewi, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 15 Mawrth**
Sgwrs gan yr Athro E. Wyn James am gyfieithiadau Cymraeg o emynau Martin Luther, yn one2two, 122 Whitchurch Road, CF14 3LZ, am 7.30pm.

**Gwener, 16 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Rhiannon Heledd Williams ar y testun, 'Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad?', yn Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 16 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Bydd Elinor Wyn Reynolds yn siarad ar y testun, 'Anturiaethau mewn Barddoniaeth', yn Y Ganolfan, Tabernacl, Yr Efail Isaf, am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Sadwrn, 17 Mawrth**
Y Tabernacl, Yr Ais. Organathon rhwng 1 a 4pm.

I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 3



# Canu Calennig yn Rhiwbeina 2018

Bore Calan eleni cafodd llawer o drigolion Rhiwbeina eu dihuno gan rai o blant y pentref yn canu Calennig ar garreg y drws. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i Megan, Mari Fflur, Awen a Sara grwydro'r pentref ar fore cyntaf mis Ionawr yn canu'u cyfarchion ac, eleni, ymunodd dau arall â'r grŵp, sef Louise a James. Er gwaethaf ambell gawod, llwyddodd y criw i ymweld â degau o gartrefi gan ddod a gwên i wyneb pawb a chodi dros £120 i elusen Tŷ Hafan!

Llongyfarchiadau calonnog iddynt am y fath ymdrech arbennig!

Hoffai'r plant, sy'n ddisgyblion yn Ysgol y Wern, a'u rhieni, ddiolch o galon i bawb am y croeso, y cyfraniadau hael a'r danteithion a gawsant ar fore cyntaf 2018! Maent yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn barod! Blwyddyn Newydd Dda!

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Noson boblogaidd flynyddol yw ymweliad Delyth Medi ac aelodau o Adran Gerdd Ysgol Glantaf â'r Gymdeithas hon. Mae'r neuadd bob amser yn llawn dop pan fydd y disgyblion dawnus a'u hathrawes ymroddedig yn dod i berfformio. Felly roedd hi unwaith eto ar 15 Ionawr.

Cafodd y gynulleidfa wledd gerddorol gan offerynwyr a chantorion a anrhydeddwyd eisoes ar lwyfannau eisteddfodau a gwyliau cenedlaethol. Rhyfeddwyd at allu Megan, Heledd a Cadi ar y delyn, Catrin ar y sacsoffon, Lucy ar y soddgrwth, Cerys ar y ffliwt a Ross yn canu jazz ar y piano. Nid gallu ar un offeryn oedd yn nodweddu'r disgyblion hyn ond gallu ar sawl offeryn gwahanol. Roedd gweithiau gan gyfansoddwyr fel Chopin i'w clywed ynghyd â darnau cyfoes neu drefniadau'r disgyblion eu hunain. Ar un achlysur daeth *ensemble* ynghyd yn cynnwys dau soddgrwth, telyn a phiano i gynnig yr enwog *Singing in the Rain*. Cyfuniad hyfryd arall oedd telyn a ffliwt Cadi a Cerys. Clywyd gallu lleisiol sawl un hefyd. Daeth triawd ymlaen i ganu *Cwsg Osian* a dwy chwaer ganodd *Hwn yw fy mhlentyn i*. *Tosturi Duw* oedd dewis Rhys a chanodd wedyn ddeuawd gyda'i chwaer, Heledd.

Criw dawnus, amryddawn oedd y rhain a'u hathrawes yn canmol eu rhieni cefnogol y tu hwnt. Daeth Evan, disgybl deg oed o Ysgol Treganna, i'r blaen i ganu. Bu'n aelod o berfformwyr *Tiger Bay*. Canodd ddwy gân yn feistrolgar a chyfeiriwyd ato fel "tipyn o seren"!

Yn wir, sêr y dyfodol oedd yr artistiaid hyn a mawr oedd y gymeradwyaeth.

Croesawodd Falmai sawl un a oedd ar eu hymweliad cyntaf â'r Gymdeithas – Dilwyn a Carys, Clive a Caroline ac Einon a Delyth.

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

Ar nos Wener, 24 Tachwedd bu Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys yn cynnal ei Noson Elusennol flynyddol. Roedd Neuadd y Pentref dan ei sang a'r awyrgylch yn gynnes a chyfeillgar. Roedd y ford fwyd yn gwichian dan lwyth y danteithion a'r bar yn brysur wrth i bawb fwynhau'r cymdeithasu. Cawsom gwmni'r canwr poblogaidd Huw Chiswell yn canu ffefrynnau hen a newydd gyda'r gynulleidfa yn ymuno mewn rhai o'r caneuon a'r gymeradwyaeth yn frwd a swnllyd!! Cyn cloi'r noson daethom at ein gilydd i ganu carolau. Pob bord yn canu'n frwd a sŵn y canu yn ddigon i godi'r to. Diolch i Rhodri am arwain ac i Mags am fod wrth y piano.

Y newyddion gorau yw i ni godi £2,300 tuag at Ysbyty Arch Noa ac "Apêl Bywydau Bychain". Yn dilyn ein gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Sant Pedr Dinas Powys trosglwyddwyd siec i ddwylo cynrychiolydd Arch Noa – Bethan Simmonds. Gweler hi a'i mam Mary Simmonds (ein Cadeirydd eleni) yn dal y siec ac yn gwenu'n braf.

